CBAC Lefel 2

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

## Canllaw Addysgu



# Cynnwys


1. Cyflwyniad a Nodau 3
2. Ymgysylltu â'r Sector 4
3. Trosolwg o'r Fanyleb 5
4. Amcanion Asesu 6
5. Cyflwyniad i'r Uned – Canllawiau 10
6. Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd 11
   - 6.1 Rhaglen astudio a gweithgareddau gwersi awgrymedig 12
   - 6.2 Paratoi ar gyfer yr arholiad ysgrifenedig 19
7. Uned 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn 20
   - 7.1 Rhaglen astudio a gweithgareddau gwersi awgrymedig 21
   - 7.2 Paratoi ar gyfer asesiad di-arholiad 27
8. Mapio: Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau 31
9. Rhestr Termau 38
10. Rolau yn y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol 46
11. Deddfwriaeth Ddefnyddiol 48
12. Adnoddau 50

# 1. CYFLWYNIAD A NODAU

Mae cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau CBAC, a gafodd ei gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2019, ar gael i bob ysgol a choleg yng Nghymru ar gyfer dysgwyr ôl 16 oed.

Bydd y cymhwyster hwn yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2020, a'r graddau fydd Llwyddiant, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

Amlinellir y set gyflawn o ofynion yn y fanyleb sydd ar gael ar wefan y Consortiwm.
https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/

Yn ogystal â'r Canllawiau Addysgu hyn, mae'r gefnogaeth ganlynol ar gael i ganolfannau.

- canllaw gweinyddol canolfannau
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc ac adrannau gweinyddol
- y fanyleb
- diweddariadau e-bost
- dadansoddi canlyniadau arholiadau
- adroddiadau prif arholwyr ar bob cyfres o arholiadau
- adroddiadau cymedrolwyr canolfannau ar unedau a gaiff eu hasesu'n fewnol
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- papurau cwestiynau a chynlluniau marcio blaenorol
- adnoddau digidol am ddim
- canllaw arfer da i leoliadau gwaith
- adolygu arholiadau ar-lein
- deunyddiau asesu enghreifftiol.

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw helpu darlithwyr ac athrawon i gyflwyno manyleb y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, a rhoi canllawiau ar ofynion y cymhwyster a'r prosesau asesu.

**Ni fwriedir i'r canllawiau hyn fod yn gyfeirbwynt cynhwysfawr**, ond yn hytrach bwriedir iddynt roi cefnogaeth i ddarlithwyr ac athrawon ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion eu dysgwyr eu hunain yn eu sefydliadau eu hunain.

Felly, dylid defnyddio'r Canllawiau Addysgu fel adnodd ategol i gyd-fynd â'r fanyleb a dylid cyfeirio at y fanyleb gyntaf bob amser. Mae'r Canllawiau Addysgu yn awgrymu rhaglen astudio a allai gael ei defnyddio fel sail i ddatblygu cynllun gwaith a gweithgareddau dysgu sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â gofynion y fanyleb.

Bydd enghreifftiau o asesiadau di-arholiad yn cael eu cyhoeddi ar wahân gan CBAC er mwyn helpu darlithwyr ac athrawon i nodi safon y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau amrywiol. Bwriedir i'r deunyddiau hyn gael eu defnyddio gan aseswyr mewnol asesiadau di-arholiad yn unig ac ni ellir eu rhannu ag ymgeiswyr o gwbl.

## 2. Ymgysylltu â'r Sector

Er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn, bydd yn rhaid i'r dysgwyr ymgymryd ag o leiaf deg diwrnod gorfodol o waith ymgysylltu â'r sector, sy'n cynnwys lleoliad gwaith 5 diwrnod x 6 awr (neu 30 awr cyfatebol). Anogir canolfannau i gynnig mwy na 10 diwrnod o ymgysylltu â'r sector pan fo hynny'n ymarferol a rhaid iddynt geisio sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, y bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a/neu brofiad o ddau leoliad o leiaf.

Gellid gwneud y 5 diwrnod o brofiad gwaith i gyd mewn un wythnos neu dros gyfnod o amser, gan ddibynnu ar amserlenni canolfannau. Fodd bynnag, argymhellir y cwblheir yr holl waith dysgu dan arweiniad cyn i'r dysgwyr ddechrau ar eu profiad gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn elwa i'r eithaf ar eu lleoliad.

Gellir ymgymryd â'r 30 awr o waith ymgysylltu â'r sector sy'n weddill mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol, megis:

- darlithoedd gan siaradwyr gwadd sy'n ymwneud â chynnwys yr uned (ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, therapydd galwedigaethol ac ati)
- ymweliadau gan gyflogwyr
- ymweliadau â lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol (lle y bo'n briodol)
- sesiynau hyfforddi a mentora, cyfeillio, cynlluniau cyfeillio
- gwirfoddoli sy'n addas i oedran ac ati, wedi'i drefnu gan gyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd yn rhaid i ddysgwyr lenwi'r cofnod ymgysylltu â'r sector a lleoliadau gwaith sydd ar gael ar dudalen y cymhwyster ar wefan [www.dysguiechydagofal.cymru](www.dysguiechydagofal.cymru) er mwyn darparu tystiolaeth o sut y maent wedi cronni'r oriau ymgysylltu â'r sector.

Dylai dysgwyr hefyd gadw dyddiadur neu gofnod myfyriol o'u gweithgareddau ymgysylltu â'r sector a lleoliadau gwaith a fydd yn eu helpu i ateb aseiniad 2 yn yr uned hon. Mae gwybodaeth i ddysgwyr a thempled enghreifftiol ar gyfer y dyddiadur/cofnod myfyriol ar gael yn y Canllaw i Ddysgwyr.

# 3. Trosolwg o'r Fanyleb

Bydd cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

| Ar ôl cwblhau'r cymhwyster hwn, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod: | |
|---|---|
| 1 | Yn deall yr egwyddorion craidd a'r gwerthoedd sy'n sail i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol a'u cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| 2 | Yn deall sut y gellir nodi anghenion unigryw unigolion ac ymateb iddynt. |
| 3 | Yn myfyrio ar sut y caiff dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu mabwysiadu mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| 4 | Yn deall swyddi a swyddogaethau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. |
| 5 | Yn deall sut mae gwahanol leoliadau, asiantaethau a gwasanaethau yn cydweithio er mwyn darparu gofal i unigolion. |
| 6 | Yn defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eu hastudiaethau. |

Bydd cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn gymhwyster unedol sy'n golygu y gellir cynnal asesiadau fesul cam i raddau. Mae'n cynnwys dwy uned orfodol:

### Strwythur y Cymhwyster

| Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd | | | |
|---|---|---|---|
| Asesiad Allanol | 90 munud | 80 marc | 40% o'r cymhwyster cyfan |
| Arholiad (a gaiff ei sefyll naill ai ar sgrin neu fel papur ysgrifenedig) sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu holl gynnwys y fanyleb sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd yn Uned 1. Mae pob cwestiwn yn orfodol. | | | |

| Uned 2: Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | | | |
|---|---|---|---|
| Asesiadau di-arholiad mewnol | 10 awr | 120 marc | 60% o'r cymhwyster cyfan |
| Dau aseiniad a gaiff eu gosod yn allanol a'u hasesu'n fewnol. Mae Aseiniad 1 yn cynnwys dewis o ddwy astudiaeth achos ac mae ar gael i ganolfannau o wefan ddiogel CBAC ar y dydd Llun cyntaf ym mis Mawrth (o 2020 ymlaen). Mae Aseiniad 2 wedi'i gyhoeddi yn Atodiad A ac mae'n gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent wedi'u meithrin wrth ymgysylltu â'r sector. | | | |

# 4. Amcanion Asesu

Mae Amcanion Asesu (AA) yn cyfeirio at y sgiliau y mae angen i ddysgwyr eu dangos wrth ymateb i gwestiynau mewn arholiad neu aseiniad. Bydd cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn cynnwys tri amcan asesu.

Bydd yr asesiadau mewnol a'r asesiadau allanol yn targedu'r amcanion asesu hyn yn unol â'r pwysoliadau canlynol:

| Amcan | Gofynion | Pwysoliadau |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol | 35-40% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol. | 38-42% |
| AA3 | Dadansoddi a myfyrio ar agweddau ar egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol. | 21-25% |

### Dadansoddiad o Asesiadau Unedau

| Uned | Amser | Pwysoliad y cymhwyster | Marciau | Marc AA | | Pwysoliad AA | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 awr 30 munud | 40% | 80 | AA1 | 28-32 | AA1 | 35-40% |
| | | | | AA2 | 32-34 | AA2 | 38-42% |
| | | | | AA3 | 18-20 | AA3 | 21-25% |
| 2 | 10 awr | 60% | 120 | AA1 | 42 | AA1 | 35% |
| | | | | AA2 | 48 | AA2 | 40% |
| | | | | AA3 | 30 | AA3 | 25% |

I sicrhau bod asesiadau'n targedu amcanion asesu (AA) mewn modd priodol a chyson, ac i helpu dysgwyr i ddeall gofynion cwestiynau arholiad Uned 1, defnyddir geiriau gorchymyn penodol er mwyn targedu'r tri AA.

| AA | Gorchymyn | Gofynion yr ymateb |
|---|---|---|
| **AA1** | Diffiniwch | Rhoi union ystyr |
| | Disgrifiwch | Rhoi nodweddion/prif nodweddion neu ddisgrifiad cryno |
| | Rhowch | Darparu/enwi/dethol/adnabod ffeithiau cryno neu enghreifftiau (o ffynhonnell sydd wedi'i rhoi neu o'r cof) |
| | Nodwch (Identify) | Fel yn achos 'rhowch' |
| | Rhestrwch | Fel yn achos 'rhowch' |
| | Enwch | Fel yn achos 'rhowch' |
| | Amlinellwch | Amlinellu'r prif bwyntiau/rhoi disgrifiad cryno neu brif nodweddion |
| | Nodwch (State) | Fel yn achos 'rhowch' |
| | Awgrymwch | Cyflwyno syniad, rheswm neu ddull gweithredu posibl |
| | Rhowch grynodeb | Dewis a chyflwyno'r prif bwyntiau (heb fanylion) |

**Cwestiynau enghreifftiol AA1:**
1. Diffiniwch ystyr gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
2. Disgrifiwch sut y gallai gweithio amlddisgyblaethol helpu Muriel i gyflawni'r ddau ganlyniad llesiant personol rydych wedi'u nodi.
3. Rhowch un enghraifft o ffactor economaidd a all effeithio ar dwf a datblygiad.
4. Nodwch ddau o'r canlyniadau llesiant personol yr hoffai Muriel eu cyflawni.
5. Rhestrwch dair mantais i'r unigolyn yn sgil ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
6. Amlinellwch sut mae anghenion sylfaenol Muriel wedi newid o ganlyniad i'w strôc ddiweddar.
7. Nodwch (State) dair ffordd y mae mynychu'r ysgol gynradd leol yn cyfrannu at dwf a datblygiad Ahmed.
8. Lluniwch grynodeb ar gyfer pob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol.

| AA | Gorchymyn | Gofynion yr ymateb |
|---|---|---|
| **AA2** | Cymhwyswch | Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaeth neu gysyniad a chysylltu hynny â chyd-destun penodol |
| | Cyfrifwch | Datrys gan ddefnyddio ffeithiau, ffigurau neu wybodaeth a roddwyd |
| | Disgrifiwch | Rhoi manylion am effaith, h.y. yr hyn sydd wedi newid/digwydd |
| | Esboniwch | Rhoi manylion a rhesymau i egluro sut a pham mae rhywbeth fel y mae |
| | Eglurwch | Defnyddio diagram neu eiriau i ddangos yn glir sut mae cysyniad neu ddamcaniaeth yn gweithio mewn cyd-destun penodol |
| | Dehonglwch | Trosi gwybodaeth o un ffurf i un arall |
| | Dangoswch | Fel yn achos 'eglurwch' |
| | Defnyddiwch | Cymhwyso gwybodaeth a ddarparwyd at ddamcaniaeth neu gysyniad penodol |

**Cwestiynau enghreifftiol AA2:**

1. Disgrifiwch effeithiau posibl cael brawd iau â pharlys yr ymennydd ar ddatblygiad Nadia.
2. Esboniwch unrhyw heriau posibl y bydd angen eu goresgyn er mwyn i Muriel gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

| AA | Gorchymyn | Gofynion yr ymateb |
|---|---|---|
| **AA3** | Aseswch | Llunio barn ar sail gwybodaeth |
| | Dadansoddwch | Archwilio mater yn fanwl/sut mae rhannau'n berthnasol i'r cyfan, esbonio a dehongli |
| | Cymharwch | Nodi tebygrwydd a rhoi sylwadau/esbonio |
| | Ystyriwch | Adolygu gwybodaeth a roddir ac ymateb iddi |
| | Cyferbynnwch | Nodi gwahaniaethau a rhoi sylwadau/esbonio |
| | Trafodwch | Archwilio mater yn fanwl/mewn ffordd strwythuredig, gan ystyried syniadau gwahanol |
| | Gwahaniaethwch | Nodi ac esbonio'r gwahaniaethau rhwng syniadau neu destunau |
| | Gwerthuswch | Llunio barn drwy bwyso a mesur tystiolaeth er mwyn dod i gasgliad |
| | Archwiliwch | Ymchwilio'n agos ac yn fanwl |
| | Cyfiawnhewch | Defnyddio tystiolaeth/dadl i ategu achos |
| | Argymhellwch | Cyflwyno cynnig yn seiliedig ar resymau/tystiolaeth |
| | Myfyriwch | Gwerthuso a/neu ystyried |

**Cwestiynau enghreifftiol AA3**

1. Aseswch effaith bosibl bod yn ofalwr ifanc ar hunanganfyddiad Tomas.
2. Ystyriwch effaith bosibl dewisiadau Rhoslyn o ran ei ffordd o fyw ar ei hiechyd a'i llesiant.
3. Trafodwch sut mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn ceisio cefnogi a hybu canlyniadau iechyd a llesiant personol Muriel.
4. Myfyriwch ar y ffordd mae eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth eich hun wedi cael budd o ymgymryd â lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector.

## 5. Cyflwyniad i'r Uned – Canllawiau

Cyfanswm yr Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) a neilltuwyd ar gyfer Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yw 200 awr. Disgwylir i ddysgwyr astudio'n annibynnol ynghyd â'u dysgu dan arweiniad. Gallai gweithgareddau annibynnol ychwanegol gynnwys ymchwil, cwblhau gwaith cartref, e-ddysgu a chyfleoedd e-asesu. Dylid annog pob dysgwr i gymryd rhan weithredol yn y gweithgareddau hyn.

Argymhellir yn gryf fod dysgwr sy'n ymgymryd â'r cymhwyster hwn yn cwblhau cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd hefyd. Gellid cynnal y ddau gwrs ar yr un pryd er mwyn cyrraedd 500 o oriau dysgu dan arweiniad. Fel arall, gellid cwblhau'r cymhwyster Craidd yn gyntaf ac yna gallai dysgwyr barhau i Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. Y naill ffordd neu'r llall, mae'n rhaid i ddysgwyr gael y cyfle i greu cysylltiadau rhwng elfennau o bob rhan o'u cwrs astudio llawn, a dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r elfennau hynny.

Mae'r enghraifft ganlynol o raglen astudio awgrymedig yn seiliedig ar gynllun addysgu 28 wythnos (gan hefyd ganiatáu amser i baratoi ar gyfer yr arholiad a chwblhau'r asesiad di-arholiad) gydag oddeutu 6 awr o ddysgu dan arweiniad bob wythnos. Caiff Unedau 1 a 2 eu hystyried ar wahân. Serch hynny, er bod yr asesiad ar gyfer pob uned yn asesu'r cynnwys sy'n benodol i'r uned honno, mae'n rhaid i ddysgwyr gael y cyfle i greu cysylltiadau rhwng elfennau o bob rhan o'r cwrs astudio llawn, a dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r elfennau hynny.

**Mae'r rhaglen astudio awgrymedig hon yn cynnig un ffordd bosibl o gyflwyno'r cwrs. Nid yw'n rhagnodol a gall canolfannau strwythuro'r cwrs yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau unigol. Os bydd mwy nag un athro yn cyflwyno'r cwrs, gellir teilwra'r rhaglen hon i'w harbenigeddau unigol.**

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau maent yn eu hennill o'r cymhwyster hwn yn alwedigaethol berthnasol. Gall dysgu cymhwysol roi profiadau 'bywyd go iawn' â ffocws i ddysgwyr o fewn amgylchedd yr ysgol/coleg a'r tu allan i'r amgylchedd hwnnw. Lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau yn y canllawiau hyn yn defnyddio dull dysgu cymhwysol a phwrpasol.

# 6. UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

### Rhaglen Astudio:

Awgrymiadau yn unig yw'r gweithgareddau a ddarperir yma ar gyfer datblygu gwybodaeth dysgwyr. Mae'n rhaid i bob canolfan benderfynu a yw'r gweithgareddau yn briodol ar gyfer eu dysgwyr a chydnabyddir y gall amodau lleol bennu'r dull gweithredu a ddefnyddir. Er y gall rhai o'r gweithgareddau awgrymedig gynnwys gwaith ymgysylltu â'r sector, sylwer y bwriedir i'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau gael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth. Mae dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth drwy'r profiadau y byddant yn eu cael wrth wneud y gweithgareddau. Mae adborth ffurfiannol yn hanfodol i'r dysgu er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r graddau gorau posibl. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gweithgareddau enghreifftiol sy'n rhoi digon o gyfleoedd ar gyfer adborth ffurfiannol.

### Asesu:

Caiff yr uned hon ei hasesu'n allanol drwy arholiad 90 munud sy'n cyfrannu 40% at y cymhwyster cyffredinol. Mae'r arholiad wedi'i strwythuro fel bod modd asesu holl gynnwys y pwnc drwy'r **tri** Amcan Asesu. Gellir sefyll yr arholiad fel arholiad ar sgrin neu fel papur ysgrifenedig. Mae pob cwestiwn yn orfodol a bydd cymysgedd o gwestiynau sy'n gofyn am atebion byr a chwestiynau sy'n gofyn am atebion hirach drwy gydol y papur.

**Argymhellir yn gryf fod meysydd testun 1.1 ac 1.2 y fanyleb yn cael eu haddysgu'n gyfannol gan athrawon, fel yr adlewyrchir yn y rhaglen astudio enghreifftiol.**

## 6.1 Uned 1: Rhaglen astudio a gweithgareddau gwersi awgrymedig (yn seiliedig ar oddeutu 6 awr o addysgu yr wythnos)

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu |
|---|---|---|---|---|
| **1.1 Agweddau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar draws camau bywyd unigolion** | 1 | **Cyflwyno cynnwys yr uned ac asesu**<br>**Gweithgareddau**<br>Defnyddiwch enghraifft o grŵp teulu ag aelodau o bob cyfnod mewn bywyd, er enghraifft grŵp teulu neu gymeriadau o raglen deledu boblogaidd: edrychwch ar y pum cyfnod mewn bywyd a'r amrediadau oed ar gyfer pob un; defnyddiwch gêm paru cardiau i baru aelod o'r teulu, amrediad oed a chyfnod mewn bywyd; trafodwch yr atebion; gallai dysgwyr lunio tabl o gyfnodau bywyd ac amrediadau oedran y cymeriadau.<br>Diffiniwch dwf a datblygiad drwy gynnal trafodaeth yn y dosbarth. Trafodwch P.I.E.S. a disgrifiwch eu hystyron.<br>Trafodwch gerrig milltir datblygiad corfforol ar gyfer pob cyfnod mewn bywyd.<br>**Siaradwr gwadd –** Ymwelydd Iechyd i siarad am yr agweddau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad drwy gydol cylch bywyd unigolyn. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.1<br>Astudiaeth achos o grŵp teulu; enghraifft o raglen deledu boblogaidd.<br>Cardiau cymysgu a chyfateb.<br>Siartiau canraddau.<br>Siaradwr gwadd: Ymwelydd Iechyd lleol. | Dysgwyr i feddwl am gwestiynau a gwneud nodyn ohonynt yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd.<br>Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | 2 | **Meysydd datblygu**<br>Trafodwch gerrig milltir datblygiad deallusol (gwybyddol) ar gyfer pob cyfnod mewn bywyd.<br>Trafodwch gerrig milltir datblygiad emosiynol ar gyfer pob cyfnod mewn bywyd.<br>Trafodwch gerrig milltir datblygiad cymdeithasol ar gyfer pob cyfnod mewn bywyd.<br>**Gweithgaredd**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bach a rhowch aelod o'r teulu/cymeriad o raglen deledu o wahanol gyfnod mewn bywyd i bob grŵp (gweler gwers Wythnos 1). Pob grŵp i ymchwilio i gerrig milltir ar gyfer eu haelod o'r teulu a llunio cwis Kahoot i'w gyflwyno i weddill y dosbarth. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.1<br>Astudiaeth achos o grŵp teulu; enghraifft o raglen deledu boblogaidd.<br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1.2 Dylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd ar dwf, iechyd a llesiant** | 3 | **Ffactorau mewn bywyd**<br>Cyflwynwch y syniad bod gwahanol ffactorau'n effeithio arnom drwy gydol y cyfnodau mewn bywyd sy'n gallu effeithio ar ein twf, ein datblygiad a'n llesiant; gallwn reoli rhai o'r ffactorau hyn, ond ni allwn reoli rhai eraill.<br><br>**Gweithgareddau**<br>Dysgwyr i weithio mewn parau neu grwpiau bach i lunio map meddwl o rai ffactorau a all ddylanwadu ar unigolion. Trafodwch y rhain fel dosbarth a chyflwynwch y ffaith y gall fod gwahanol gategorïau o ffactorau (corfforol, cymdeithasol ac emosiynol, economaidd ac amgylcheddol). Dysgwyr i rannu'r ffactorau maent wedi'u nodi o'r map meddwl i bob categori.<br><br>Trafodwch ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd a all effeithio ar y gallu i gyflawni cerrig milltir datblygiadol disgwyliedig (cadarnhaol a negyddol).<br><br>Defnyddiwch yr astudiaeth achos enghreifftiol o Wythnos 1 i roi senarios ac amgylchiadau unigol o bob cyfnod mewn bywyd er mwyn ystyried yr hyn a all fod wedi effeithio ar garreg filltir ddatblygiadol ddisgwyliedig unigolyn, yn gadarnhaol ac yn negyddol.<br><br>Mae'r cyfleoedd sydd ar gael yn dylanwadu ar ddewisiadau ffordd o fyw, eiddo materol, llety, addysg, mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Defnyddiwch yr astudiaeth achos enghreifftiol o Wythnos 1 i roi senarios ac amgylchiadau unigol o bob cyfnod mewn bywyd sy'n dangos y cyfleoedd sydd ar gael i'r unigolyn. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.2<br><br>Astudiaeth achos o grŵp teulu; enghraifft o raglen deledu boblogaidd.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 4 | **Effaith peidio â chyrraedd cerrig milltir datblygiadol ar unigolion o ganlyniad i ddylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd ar eu twf, eu hiechyd a'u llesiant.**<br><br>Defnyddiwch yr astudiaeth achos enghreifftiol o Wythnos 1 i roi senarios ac amgylchiadau unigol o bob cyfnod mewn bywyd er mwyn ystyried effaith peidio â chyrraedd cerrig milltir datblygiadol am amrywiaeth o resymau.<br><br>**Gweithgareddau**<br>Ymchwiliwch i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael i gefnogi unigolion nad ydynt yn cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol o ganlyniad i ddylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd ar eu twf, eu hiechyd a'u llesiant.<br><br>Defnyddiwch yr astudiaeth achos enghreifftiol o Wythnos 1 i ofyn i'r dysgwyr ymchwilio i amrywiaeth o wasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol a all fod ar gael i unigolyn nad yw wedi cyrraedd ei gerrig milltir datblygiadol o bosibl.<br><br>**Siaradwr gwadd** – gwahoddwch yr Ymwelydd Iechyd i ddod yn ôl i siarad am wasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol sydd ar gael yn lleol i unigolyn nad yw wedi cyrraedd ei gerrig milltir datblygiadol o bosibl. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.2<br><br>Astudiaeth achos o grŵp teulu; enghraifft o raglen deledu boblogaidd.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil.<br><br>Siaradwr gwadd: Ymwelydd Iechyd lleol. | Dysgwyr i feddwl am gwestiynau a gwneud nodyn ohonynt yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd.<br><br>Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar ddwy ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| **1.3 Y ffactorau sy'n llywio hunangysyniad** | 5 | **Dysgu'r derminoleg**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu dehongliad o'r termau 'cynhwysiant', 'gwydnwch' a 'hunangysyniad' (gallant ddefnyddio geiriaduron i'w cynorthwyo). Trafodwch sut y gall ystyr y geiriau hyn gyfrannu at dwf a datblygiad parhaus, gan roi enghreifftiau o ymateb i ddigwyddiadau mewn bywyd ac ymdopi â nhw.<br><br>**Gweithgareddau**<br>Dysgwyr i greu tabl sy'n cynnwys diffiniad o bob term ac arwyddocâd pob un o ran ymateb i ddigwyddiadau mewn bywyd ac ymdopi â nhw. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.3<br><br>Geiriaduron.<br><br>Astudiaethau achos enghreifftiol.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dysgwyr i weithio mewn parau i feddwl am ddiffiniad ar gyfer 'cyfranogiad gweithredol'. Trafodwch fel dosbarth ac yna rhowch y diffiniad canlynol i'r dysgwyr: '*Dull sy'n galluogi unigolion i gael eu cynnwys yn eu gofal eu hunain a chael mwy o lais yn y ffordd maent yn byw eu bywyd mewn ffyrdd sydd o bwys iddynt yw cyfranogiad gweithredol'*.<br><br>Defnyddiwch astudiaethau achos enghreifftiol fel bod y dysgwyr yn gallu nodi a thrafod sut y gellir defnyddio cyfranogiad gweithredol mewn gwahanol leoliadau gofal a thrwy gydol pob cyfnod mewn bywyd, gan nodi'r manteision i'r unigolyn.<br><br>Y dysgwyr i greu cymhorthion adolygu ynglŷn â sut y gellir defnyddio cyfranogiad gweithredol, cynhwysiant, gwydnwch a hunangysyniad drwy gydol pob cyfnod mewn bywyd er budd i'r unigolyn. | adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | |
| | 6 | **Gweithgareddau**<br>Trafodwch ystyr y term 'hunangysyniad'. Y dysgwyr i nodi'r diffiniad a gweithio mewn parau i nodi rhestr o ffactorau (cadarnhaol a negyddol) sy'n effeithio ar hunangysyniad ac yna ddadansoddi effeithiau'r rhain. Trafodwch (gan ddefnyddio astudiaethau achos enghreifftiol i egluro) sut y gellir cefnogi unigolion ym mhob cyfnod mewn bywyd i gyflawni hunangysyniad cadarnhaol.<br><br>Dysgwyr i lunio adnodd (e.e. poster neu daflen) i egluro sut y gellir cefnogi unigolion ym mhob cyfnod mewn bywyd i gyflawni hunangysyniad cadarnhaol. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.3<br><br>Astudiaethau achos enghreifftiol.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | 7 | **Profwch wybodaeth y dysgwyr am y termau 'gwydnwch a hunangysyniad'**<br><br>**Gweithgaredd**<br>Defnyddiwch astudiaethau achos enghreifftiol fel bod y dysgwyr yn gallu nodi a thrafod sut y gellir annog unigolion i ddatblygu a defnyddio gwydnwch a hunangysyniad cadarnhaol mewn lleoliadau gofal gwahanol ac ym mhob cyfnod mewn bywyd, gan nodi'r manteision i'r unigolyn. Gallwch ehangu'r gweithgaredd hwn i nodi sut y gall unigolyn ar bob cyfnod mewn bywyd ddefnyddio gwydnwch a hunangysyniad cadarnhaol i gyflawni canlyniadau personol mewn lleoliadau a sefyllfaoedd gwahanol. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.3<br><br>Astudiaethau achos enghreifftiol.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1.4**<br>**Rôl a diben hybu iechyd a llesiant** | 8 | **Hybu iechyd a llesiant**<br>Cyflwynwch y syniad bod unigolion yn cael budd o gefnogaeth ar gam cynnar er mwyn atal, neu o leiaf oedi, defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ffurfiol.<br><br>**Gweithgareddau**<br>Dysgwyr i weithio mewn grwpiau gan ddefnyddio'r astudiaeth achos enghreifftiol o grŵp teulu o Wythnos 1. Dyrannwch aelod o'r teulu i bob grŵp, a fydd yna'n ymchwilio i ffyrdd o hybu a chynnal twf a llesiant yr aelod o'r teulu. Bydd pob grŵp yn cyflwyno ei ganfyddiadau i weddill y dosbarth.<br><br>Trafodwch rôl, diben a manteision cyffredinol hybu iechyd a llesiant.<br><br>Dysgwyr i lunio eu ffeithlun/poster eu hunain am y rôl a'r diben, a phwysigrwydd a manteision hybu iechyd a llesiant cadarnhaol drwy bob un o'r camau bywyd. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.4<br><br>Astudiaeth achos o grŵp teulu; enghraifft o raglen deledu boblogaidd.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | 9 | **Cefnogi unigolion**<br>Fel dosbarth, trafodwch sut mae'r dysgwyr yn meddwl y gallent gefnogi unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.<br><br>**Gweithgareddau**<br>Y dysgwyr i greu rhestr o'r ffactorau ffordd o fyw y mae unigolion yn y cyfnodau bywyd gwahanol yn gallu eu rheoli ond sy'n gallu achosi risg iddynt. Trafodwch y ffactorau hyn a nodwch effaith y ffactorau hyn ar iechyd a llesiant.<br><br>Trafodwch sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd drwy ddeddfwriaeth megis **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** a **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**<br><br>**Gweithgaredd**<br>Dysgwyr i lunio eu hadnodd eu hunain (e.e. poster neu daflen) am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd a llesiant drwy'r deddfwriaethau hyn. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.4<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 10 | **Gweithgaredd**<br>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a rhowch restr o dri awgrym i wella iechyd:<br>• Peidio â smygu. Os gallwch chi, rhowch y gorau iddi. Fel arall, smygwch lai<br>• Dilyn deiet cytbwys, gyda digon o ffrwythau a llysiau.<br>• Rheoli straen drwy, er enghraifft, siarad am bethau a neilltuo amser i ymlacio.<br>Gofynnwch i bob grŵp nodi:<br>• Pam gallai'r cyngor arwain at iechyd gwell?<br>• Ar ba agweddau ar iechyd a llesiant unigolyn bydd hyn yn dylanwadu?<br>• Pe bai'r unigolyn yn dilyn pob darn o gyngor, pwy arall fyddai'n elwa?<br><br>Trafodwch atebion pob grŵp wrth i'r dysgwyr wneud nodiadau.<br><br>Cyflwynwch y syniad bod iechyd yn gyfannol a bod 'bod yn iach' yn golygu gwahanol bethau i wahanol unigolion. Trafodwch y gwahaniaeth rhwng ymgyrchoedd iechyd ac ymgyrchoedd llesiant (gan roi enghreifftiau) o ran helpu unigolion i wella a chynnal eu hiechyd a'u llesiant.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i un ymgyrch iechyd gyfredol sy'n benodol i Gymru ac un ymgyrch llesiant gyfredol sy'n benodol i Gymru. Crëwch gyflwyniad PowerPoint yn amlinellu'r gwahaniaeth ym mhob ymgyrch maent wedi ymchwilio iddi. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.4<br><br>Rhestr o enghreifftiau o ymgyrchoedd iechyd cyfredol.<br><br>Rhestr o enghreifftiau o ymgyrchoedd llesiant cyfredol.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | 11 | **Gweithgareddau**<br>Dysgwyr i archwilio ystod o ddeunyddiau hybu iechyd er mwyn canfod:<br>• Pa fater maen nhw'n ceisio ymdrin ag ef?<br>• Beth yw'r strategaeth?<br>• At ba grŵp targed mae'r deunydd wedi'i anelu? | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.4<br><br>Rhestr o enghreifftiau o ymgyrchoedd iechyd cyfredol. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Disgrifiwch bwrpas hybu iechyd. Cyflwynwch y gwahanol fathau o ddulliau hybu iechyd. Dysgwyr i edrych eto ar ddeunyddiau hybu iechyd er mwyn canfod pa ddull sy'n cael ei ddefnyddio.<br>Dysgwyr i ymchwilio i un ymgyrch iechyd ac un ymgyrch llesiant a llunio adnodd o'u dewis yn amlinellu'r deunyddiau a'r dulliau a ddefnyddiwyd i hybu iechyd a llesiant yn y ddwy ymgyrch maent wedi ymchwilio iddynt.<br><br>Gall enghreifftiau o ymgyrchoedd a mentrau penodol gynnwys:<br>• Sgrinio am Oes (http://www.sgrinioamoes.cymru.nhs.uk/hafan)<br>• Love Thy Cervix (https://beautifulcervix.com/)<br>• Be Clear on Cancer (https://www.cancerresearchuk.org/health-professional/awareness-and-prevention/be-clear-on-cancer)<br>• Bron Brawf Cymru (http://www.bronbrawfcymru.cymru.nhs.uk/)<br>• Sgrinio Clyw Babanod Cymru (http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/980/hafan) | Rhestr o enghreifftiau o ymgyrchoedd llesiant cyfredol.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | |
| | 12 | **Gweithgareddau**<br>Dysgwyr i archwilio amrywiaeth o fentrau iechyd a llesiant cyfredol sy'n benodol i Gymru, gan gynnwys ymwybyddiaeth o wrthfiotigau, brechiadau rhag y ffliw a gwasanaethau sgrinio a brechu.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i ddwy ymgyrch cyn ysgrifennu adroddiad yn cymharu'r rolau, y dibenion a'r heriau posibl a wynebwyd yn ystod y fenter. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 1.4 Rhestr o enghreifftiau o ymgyrchoedd iechyd a llesiant cyfredol. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | 13 | **Adolygu/Ymarfer ar gyfer yr arholiad**<br>Rhowch arweiniad i ddysgwyr ar y canlynol:<br>amgylchedd dysgu<br>• arddulliau dysgu<br>• technegau adolygu<br>• technegau arholiad<br>• adnoddau sydd ar gael i'w cynorthwyo<br>• cyngor cyffredinol.<br>Cyfeiriwch y dysgwyr at y ddogfen ***Canllaw i Ddysgwyr*** | Hen bapurau/Deunyddiau Asesu Enghreifftiol<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Hen bapurau/Deunyddiau Asesu Enghreifftiol<br><br>Bydd gan ddysgwyr nodiadau adolygu eisoes o bob wythnos o'r rhaglen o ganlyniad i'w gweithgareddau gwaith cartref. |

## 6.2 Paratoi ar gyfer yr arholiad ysgrifenedig

Caiff yr uned hon ei hasesu'n allanol drwy arholiad 90 munud sy'n cyfrannu 40% at y cymhwyster cyffredinol. Mae'r arholiad wedi'i strwythuro fel bod modd asesu holl gynnwys y pwnc drwy'r **tri** Amcan Asesu. Gellir sefyll yr arholiad fel arholiad ar sgrin neu fel papur ysgrifenedig. Mae pob cwestiwn yn orfodol a bydd cymysgedd o gwestiynau sy'n gofyn am atebion byr a chwestiynau sy'n gofyn am atebion hirach drwy gydol y papur.

Mae papur a chynllun marcio enghreifftiol ar gyfer Uned 1 ar gael ar wefan dysgu iechyd a gofal Cymru.

Drwy gydol y cwrs, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr weithio drwy amrywiaeth eang o gwestiynau arholiad yn yr ystafell ddosbarth ac fel gwaith cartref.

Mae'n rhaid i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â gosodiad y papur arholiad a gofynion y gwahanol fathau o gwestiynau, megis: atebion byr ac atebion ysgrifennu strwythuredig ac estynedig.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer ateb y cwestiynau sy'n gofyn am ysgrifennu hirach ac estynedig. Rhaid i ddysgwyr ddeall y cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer yr atebion hirach, lle mae gofyn iddynt gyflwyno ffeithiau y mae'n rhaid eu cefnogi â rhesymau a thrafodaeth. Mae'r cynllun marcio yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol a ddefnyddir ochr yn ochr â'r papur arholiad, yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae marciau'n cael eu dyfarnu, a dyfnder y wybodaeth sydd ei hangen.

Dylai dysgwyr:

- ddeall y termau sy'n cael eu defnyddio'n aml mewn papurau arholiad
- dilyn y cyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi ar flaen y papur arholiad
- darllen pob cwestiwn yn ofalus ac amlygu neu danlinellu geiriau allweddol
- osgoi defnyddio pwyntiau bwled gan fod hyn yn tueddu i gynhyrchu atebion cyfyngedig (tebyg i restr) – mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ehangu ar eu hatebion ac yn rhoi ffaith, pwynt, esboniad neu reswm ac enghreifftiau da; mae atebion un gair yn dderbyniol ond dim ond os yw'r cwestiwn yn gofyn am y math hwn o ateb
- edrych ar nifer y marciau sydd wedi'u dyrannu i bob cwestiwn a gwneud yn siŵr bod yr atebion yn cynnwys digon o wybodaeth
- sicrhau bod eu hatebion yn berthnasol
- sicrhau bod eu hysgrifen yn ddarllenadwy ac osgoi defnyddio 'iaith negeseuon testun'
- cadw llygad ar yr amser – dylid gadael digon o amser i ddarllen drwy'r papur yn ofalus er mwyn sicrhau bod pob cwestiwn wedi'i ateb yn llawn.

Mae'n bwysig neilltuo amser ar gyfer gwersi adolygu gan roi cyfle i'r dysgwyr archwilio ystod o dechnegau adolygu. Gellir dod o hyd i wers adolygu enghreifftiol yn y rhaglen astudio enghreifftiol a cheir gwybodaeth i helpu'r dysgwr i adolygu yn y ***Canllaw i Ddysgwyr***.

# 7. UNED 2: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL MEWN PERTHYNAS Â CHEFNOGI DARPARIAETH SY'N CANOLBWYNTIO AR GANLYNIADAU AR GYFER GOFAL SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN

Diben yr uned hon yw galluogi dysgwyr i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- yr amrywiaeth o anghenion unigol gydol oes
- yr amrywiaeth o gyfleoedd a heriau yn lleol a ledled Cymru
- rôl a chyfrifoldebau gweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol
- deddfwriaeth ac egwyddorion gofal a chymorth.

Mae'r uned hon yn cynnwys dau aseiniad a gaiff eu gosod yn allanol a'u hasesu'n fewnol a gyhoeddir yn flynyddol gan CBAC sy'n cyfrannu 60% at radd gyffredinol y cymhwyster. Mae'r asesiad hwn yn gofyn bod dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth y maent wedi'u meithrin yn Uned 1 **ac** Uned 2. Bydd dysgwyr yn cael 5 awr (10 awr i gyd) i gwblhau pob tasg o dan amodau rheoledig. Caiff y tasgau eu marcio'n fewnol a'u cymedroli'n allanol gan CBAC. Mae'n rhaid cyflwyno'r holl gynnwys cyn y gall y dysgwr ddechrau ar y tasgau rheoledig.

Bydd **Aseiniad 1** yn seiliedig ar astudiaeth achos. Bydd CBAC yn cyhoeddi dwy astudiaeth achos ar y dydd Llun cyntaf ym mis Mawrth bob blwyddyn. Bydd ymgeiswyr yn dewis un o'r astudiaethau achos hyn ac yn ateb cwestiynau yn seiliedig ar yr astudiaeth achos honno. Bydd y cwestiynau sy'n gysylltiedig â phob astudiaeth achos a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn academaidd yn debyg, ond wedi'u rhoi yng nghyd-destun y senario benodol sy'n cael ei chyflwyno. Bydd yr astudiaethau achos yn adlewyrchu senarios bywyd go iawn y gellid dod ar eu traws wrth weithio mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol neu wrth fod ar leoliad gwaith mewn lleoliad o'r fath.

Bydd **Aseiniad 2**, sy'n seiliedig ar ymgysylltu â'r sector, yn aros yr un peth tra bo'r fanyleb ar waith ac mae wedi'i gyhoeddi yn Atodiad A y fanyleb. Mae'r aseiniad hwn yn gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent wedi'u meithrin wrth ymgysylltu â'r sector. Bydd dysgwyr yn gallu gweld eu cofnod ymgysylltu â'r sector a nodiadau a wnaed wrth ymgysylltu â'r sector wrth gwblhau'r dasg hon. Bydd disgwyl i ddarlithwyr/athrawon wirio'r nodiadau hyn cyn yr asesiad er mwyn sicrhau mai'r ymgeiswyr eu hunain sydd wedi llunio'r nodiadau.

Fel gydag Uned 1, bydd yn rhaid i bob canolfan benderfynu a yw'r gweithgareddau a awgrymir isod yn briodol ar gyfer eu dysgwyr a chydnabyddir y gall amodau lleol bennu'r dull gweithredu a ddefnyddir. Bwriedir i'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn gael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, gall canolfannau ddefnyddio gwasanaethau lleol i atgyfnerthu dysgu a gwaith ymgysylltu â'r sector drwy siaradwyr gwadd, ymweliadau â'r gweithle (lle y bo'n briodol) ac ati. Mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy'r gweithgareddau. Mae adborth ffurfiannol yn rhan annatod o'r dysgu.

## 7.1 Uned 2: Rhaglen astudio a gweithgareddau gwersi awgrymedig (yn seiliedig ar oddeutu 6 awr o addysgu yr wythnos)

| Maes Testun | Wythnos | Rhaglen Astudio | Adnoddau | Gwaith Cartref |
|---|---|---|---|---|
| **2.1<br>Yr amrywiaeth o anghenion unigol gydol oes** | 1 | **Cyflwyno cynnwys yr uned ac asesu**<br>Dysgwyr i weithio mewn parau i feddwl am amrywiaeth o anghenion dynol sylfaenol yn ystod camau bywyd. Trafodwch y casgliadau fel dosbarth.<br>Cyflwynwch ddamcaniaethau sefydledig allweddol (e.e. Maslow ac Erikson) a sut maent yn effeithio ar anghenion gofal, canlyniadau a datblygiad gydol oes.<br>**Gweithgareddau**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bach; rhowch aelod o'r teulu o'r astudiaeth achos o wahanol gyfnod mewn bywyd i bob grŵp (gweler Uned 1, Wythnos 1). Pob grŵp i ymchwilio i effaith ystod o anghenion heb eu diwallu ar eu haelod o'r teulu a llunio adnodd (e.e. PowerPoint, poster neu daflen) o'u casgliad. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 2.1.<br>Astudiaeth achos o grŵp teulu; enghraifft o raglen deledu boblogaidd.<br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | 2 | **Gweithgareddau trafod**<br>Trafodwch gyflyrau byrdymor a hirdymor sy'n gofyn am gefnogaeth ychwanegol er mwyn cynnal iechyd a llesiant. Yna bydd y dysgwyr yn llunio tabl o gyflyrau byrdymor a hirdymor gan gynnwys ffynonellau cefnogaeth, p'un a oes modd atal y cyflwr ac ar ba gyfnodau mewn bywyd mae'n effeithio.<br>Fel dosbarth, trafodwch sut y gall anghenion gofal a chefnogaeth newid yn ystod bywyd a'r ffaith y gallai fod angen darpariaeth ehangach sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar unigolion ar adegau priodol.<br>Gweithwyr i weithio'n unigol i lunio cyfres o fapiau meddwl o'r canlynol:<br>• anghenion gofal corfforol ac anghenion cefnogaeth emosiynol a sut y gall anghenion newid oherwydd cyfres o ddigwyddiadau bywyd rhagweladwy a rhai anrhagweladwy | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 2.1.<br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • a yw unigolion yn byw gydag afiechydon cronig, anableddau corfforol, afiechyd meddwl, damweiniau sy'n effeithio ar iechyd<br>• unigolion â chyflwr sy'n bygwth bywyd neu sy'n cyfyngu ar fywyd, hyd at y gofal a roddir iddynt yn ystod oriau olaf eu bywyd, gan gynnwys gofal lliniarol a gofal diwedd oes. | | |
| **2.2<br>Yr amrywiaeth o gyfleoedd a heriau yn lleol a ledled Cymru** | 3 | **Cyflwyniad i'r gwasanaethau gwahanol a ddarperir drwy ofal iechyd a gofal cymdeithasol.**<br>Dysgwyr i ymchwilio i'r ffyrdd gwahanol y darperir gofal a chefnogaeth i unigolion yn ystod pob cam bywyd, yn lleol a ledled Cymru.<br><br>**Gweithgareddau**<br>Dysgwyr i lunio cyfres o adnoddau (e.e. posteri) i hysbysebu'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan eu Bwrdd Iechyd lleol a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gan eu Cyngor lleol ar gyfer pob cyfnod mewn bywyd. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 2.2.<br><br>Gwybodaeth ar gael am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir yn lleol ac yn genedlaethol.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | 4 | **Gweithgareddau**<br>Gan barhau â'r adnoddau a luniwyd yn Wythnos 3, trafodwch sut gall y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol weithio mewn partneriaeth ag unigolion i ddarparu gofal a chefnogaeth er mwyn sicrhau bod eu canlyniadau yn cael eu cyflawni.<br><br>Dysgwyr i weithio mewn parau neu grwpiau bach i greu cyflwyniad ar sut mae gwasanaethau lleol (gan gynnwys gwasanaethau'r trydydd sector) yn cydweithio i ddarparu gofal a chefnogaeth i unigolion ym mhob cyfnod mewn bywyd. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 2.2.<br><br>Gwybodaeth ar gael am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir yn lleol ac yn genedlaethol. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 5 | **Gweithgareddau**<br>Dysgwyr i adolygu'r adnoddau a luniwyd ar gyfer Wythnos 3 a 4 a thrafod, fel dosbarth, sut mae unigolion yn achub ar gyfleoedd i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant, sut y gall y cyfleoedd hyn newid drwy gydol y cyfnodau mewn bywyd a'r heriau y gallant eu hwynebu.<br><br>Dysgwyr i weithio'n unigol neu mewn parau i lunio cyfres o fapiau meddwl bach yn dangos y cyfleoedd a'r heriau i unigolion o bob cyfnod mewn bywyd wrth geisio cael gafael ar wasanaethau. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 2.2.<br><br>Gwybodaeth ar gael am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir yn lleol ac yn genedlaethol. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| **2.3**<br>**Rôl a chyfrifoldebau gweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol** | 6 | **Swyddi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**<br>Dysgwyr i ddewis rôl gweithiwr proffesiynol allweddol ym maes gofal iechyd mewn gwasanaeth lleol/cenedlaethol a nodi'r rolau, cyfrifoldebau, llwybrau gyrfaol a rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer y swydd. (Anogwch bob dysgwr i feddwl am rolau gwahanol).<br><br>**Gweithgaredd**<br>Dysgwyr i gyflwyno'u canfyddiadau ar ffurf hysbyseb swydd ar gyfer papur newydd/cylchgrawn. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 2.3.<br><br>Geiriaduron.<br><br>Astudiaethau achos enghreifftiol. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | 7 | **Trafodaeth**<br>Trafodwch fel dosbarth rôl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wrth hybu a chefnogi iechyd a llesiant unigolion mewn gwahanol leoliadau. Dylent wybod a deall y gwneir hyn drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau llesiant yr unigolion a/neu drwy atal, trin, gwneud diagnosis a rheoli cyflyrau cronig.<br><br>**Gweithgaredd**<br>Dysgwyr i lunio adroddiad am rôl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wrth hybu a chefnogi iechyd a llesiant unigolion mewn gwahanol leoliadau gofal. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 2.3.<br><br>Enghreifftiau o gyflyrau cronig.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 8 | **Gweithgareddau**<br>Dysgwyr i ymchwilio i ystod o hysbysebion swyddi am rolau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Gallech ehangu'r gweithgaredd i edrych ar enghreifftiau o gontractau cyflogaeth yn y sector.<br><br>Dysgwyr i weithio mewn parau i greu:<br>• disgrifiad swydd enghreifftiol sy'n rhoi diffiniad clir o'r dyletswyddau y bydd disgwyl i weithwyr gofal eu cyflawni a monitro'r dyletswyddau hynny<br>• contract cyflogaeth enghreifftiol. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 2.3. Hysbysebion swyddi/contractau swyddi enghreifftiol o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | 9 | **Gweithgareddau**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu dehongliad o'r termau 'atebolrwydd', 'cydymffurfio' a 'dyletswydd gofal' (gallant ddefnyddio geiriaduron i'w cynorthwyo). Trafodwch sut mae ystyr pob un o'r geiriau hyn yn cyfrannu at arferion gwaith diogel yn y sector a bod pob gweithiwr yn y sector yn gyfrifol am y rhain.<br><br>Dysgwyr i lunio tabl yn cynnwys y diffiniad o bob term ac arwyddocâd pob un i rolau a chyfrifoldebau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Gallech ehangu'r gweithgaredd hwn drwy ailedrych ar y disgrifiadau swyddi a luniwyd yn Wythnos 8 ac ychwanegu cyfrifoldebau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas ag atebolrwydd, cydymffurfio a dyletswydd gofal. | Geiriaduron.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.4 Deddfwriaeth ac egwyddorion gofal a chymorth** | 10 & 11 | **Deddfwriaeth yng Nghymru**<br>Trafodwch fel dosbarth rôl y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru wrth lunio deddfwriaeth a pholisïau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac amlinellwch arwyddocâd y ffaith bod Cymru yn awdurdod datganoledig. Dysgwyr i lunio map meddwl ar y drafodaeth.<br><br>Rhowch ddiffiniadau o 'deddfwriaeth rheoleiddio a chynghori', 'is-ddeddfwriaeth/deddfwriaeth eilaidd' a 'biliau a deddfau' i'r dysgwyr. Dysgwyr i lunio tabl yn amlinellu'r gwahaniaethau rhwng pob term.<br><br>Trafodwch fel dosbarth sut y caiff ymarfer proffesiynol ei gefnogi gan drefniadau i gofrestru gweithwyr proffesiynol, cyrff rheoleiddio a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol.<br><br>**Gweithgareddau**<br>Dysgwyr i ymchwilio i godau ymarfer ar gyfer amrywiaeth o rolau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol cyn llunio map meddwl ar gyfer dwy swydd gan amlinellu'r gofynion cofrestru, y corff rheoleiddio a'r cod ymddygiad ar gyfer pob rôl. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 2.4.<br><br>Codau ymarfer enghreifftiol ar gyfer amrywiaeth o rolau iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar wyth ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | 12 & 13 | Rhowch drosolwg i'r dysgwyr o'r ddeddfwriaeth allweddol a'r ffordd y mae'n ategu gwaith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i hybu egwyddorion gofal wrth gefnogi a hybu iechyd a llesiant, gan gynnwys:<br>• Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Fframwaith Strategol Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2013.<br><br>Dysgwyr i lunio poster ar bob un o'r uchod gan amlinellu'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei olygu iddyn nhw fel gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol. | Adnoddau ar-lein CBAC Uned 2.4. Amlinelliad o ddeddfwriaeth allweddol.<br><br>Gwerslyfrau, mynediad i'r rhyngrwyd ac adnoddau ar-lein CBAC ar gyfer ymchwil. | Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu cryno ar wyth ochr A4 ar y testun a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Adolygwch fel dosbarth ystyr gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac amlinellwch ddiben deddfwriaeth a pholisïau diogelu a sut maent yn dylanwadu ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dysgwyr i lunio poster yn amlinellu'r hyn y mae deddfwriaeth a pholisïau diogelu yn ei olygu i'r unigolyn sy'n derbyn gofal.<br><br>Trafodwch â'r dysgwyr y ffaith bod egwyddorion gofal a chymorth yn seiliedig ar y syniad o hawliau dynol yn sgil deddfwriaeth gyfredol. Dysgwyr i weithio mewn parau i greu cwis Kahoot i'w gyflwyno i weddill y dosbarth ar y ffordd y dylai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ymddwyn tuag at unigolion er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol. | | |

## 7.2 Uned 2: Paratoi ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad

### Aseiniad 1:

- yn seiliedig ar un astudiaeth achos o ddewis o ddwy a gyhoeddir gan CBAC ar y wefan ddiogel ar ddydd Llun cyntaf mis Mawrth ym mhob blwyddyn academaidd
- bydd ymgeiswyr yn dewis un astudiaeth achos ac yn ateb cwestiynau yn seiliedig ar yr astudiaeth achos honno
- bydd y cwestiynau sy'n gysylltiedig â phob astudiaeth achos a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn academaidd yn debyg, ond wedi'u rhoi yng nghyd-destun y senario benodol
- bydd yr astudiaethau achos yn adlewyrchu senarios bywyd go iawn y gellid dod ar eu traws wrth weithio mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol neu wrth fod ar leoliad gwaith mewn lleoliad o'r fath
- dylai dysgwyr dreulio oddeutu 6 awr ar Aseiniad 1 a dylid cyflwyno'r dystiolaeth ar gyfer y dasg hon mewn oddeutu 2,500 o eiriau
- **ni ddylid ei roi i'r ymgeiswyr nes dechrau'r asesiad; ni ddylai'r ymgeiswyr drafod na rhannu gwybodaeth ag eraill ynglŷn â'r astudiaeth achos na'r aseiniadau yn ystod y cyfnod asesu**
- rhaid ei gwblhau yn ystod y cyfnod asesu
- caiff ei asesu'n fewnol gan ddefnyddio'r cynllun marcio a gaiff ei ryddhau'n flynyddol gyda'r aseiniad
- rhaid ei gyflwyno ar yr un pryd ag Aseiniad 2 ar gyfer ei gymedroli'n allanol.

### Aseiniad 2:

- yn seiliedig ar ymgysylltu â'r sector a bydd yr un fath dros gyfnod y fanyleb
- bydd ymgeiswyr yn cael gweld eu cofnod ymgysylltu â'r sector a'r nodiadau a wnaethant yn ystod y gweithgareddau hyn wrth gwblhau'r dasg hon a gallant fynd â hyd at chwe ochr (3 tudalen) A4 o nodiadau ychwanegol i'r amgylchedd asesu; dylai'r nodiadau hyn fod yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun a rhaid iddynt ymwneud yn benodol â gweithgareddau'r ymgeisydd ar gyfer ymgysylltu â'r sector yn cynnwys ei leoliad gwaith; bydd disgwyl i ddarlithwyr/athrawon wirio'r nodiadau hyn cyn yr asesiad er mwyn sicrhau mai'r ymgeiswyr eu hunain sydd wedi llunio'r nodiadau. Ni ddylai'r nodiadau gynnwys atebion wedi'u paratoi ymlaen llaw ar gyfer y tasgau
- dylai ymgeiswyr dreulio oddeutu 4 awr ar Aseiniad 2; mae'r gwaith ymgysylltu â'r sector a'r lleoliad gwaith sy'n ofynnol ar gyfer Aseiniad 2 yn ychwanegol at yr amser hwn
- dylai'r dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer y dasg hon gael ei chyflwyno ar ffurf tua 2,000 o eiriau
- gellir ei gwblhau yn ôl disgresiwn y ganolfan ar ôl i'r oriau ymgysylltu â'r sector gael eu cwblhau
- caiff ei asesu'n fewnol gan ddefnyddio'r cynllun marcio yn Atodiad B y fanyleb
- rhaid ei gyflwyno ar yr un pryd ag Aseiniad 1 ar gyfer ei gymedroli'n allanol.

Bydd yn rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr wedi cwblhau'r ddau aseiniad (o fewn y rheolaethau penodol) a bod gwaith wedi'i gwblhau mewn da bryd er mwyn iddo gael ei farcio gan y darlithydd/athro, ei safoni, i'r marciau gael eu lanlwytho i System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol CBAC (IAMIS) ac i'r sampl gael ei anfon i'r cymedrolwr erbyn **5 Mai** bob blwyddyn academaidd.

## Paratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau mewnol

- Cyflwynwch weithgareddau byr wrth gyflwyno'r cymhwyster fel eu bod yn ymwybodol o'r mathau o ffyrdd o ysgrifennu canfyddiadau ac ati.
- Defnyddiwch adrannau* o waith enghreifftiol i ddangos y ffordd orau o ennill marciau yn y bandiau marciau gwahanol.
- Rhowch fynediad i ddysgwyr at y cynlluniau marcio fel eu bod yn gwybod beth maent yn anelu tuag ato.

** **Ni** ddylid rhannu'r canlynol â dysgwyr: Asesiadau Di-arholiad wedi'u cwblhau sydd wedi'u darparu gan CBAC fel enghreifftiau / gwaith wedi'i gwblhau gan garfan wahanol.*

Rhaid i'r ymgeiswyr ddeall y bydd copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuon o gamymddwyn os yw'r ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysu.

Gall y tasgau di-arholiad gael eu cwblhau a'u hasesu ar unrhyw adeg addas yn ystod y cwrs, ond mae'n bwysig nodi'r canlynol:

- cyn dechrau ar y tasgau, mae'n hanfodol bod pob maes yn y fanyleb sy'n ymwneud â'r tasgau wedi'u cyflwyno fel y gall yr ymgeiswyr ennill yr holl farciau a ddyrennir i'r Asesiad Di-arholiad
- dylai darlithwyr/athrawon arwain ymgeiswyr tuag at feysydd ymchwil priodol a sefydlu sgiliau ymchwilio cadarn i'w paratoi nhw ar gyfer tasgau'r Asesiad Di-arholiad
- rhaid i'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar yr astudiaeth achos a ddewiswyd ym mhob tasg
- dylid cwblhau'r tasgau'n annibynnol – ni chaniateir gwaith grŵp
- dylai ymgeiswyr ddeall y llwybr drwy'r dasg a dangos gwybodaeth am bob un o'r adrannau
- dylid sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r dyraniadau amser ar gyfer yr amodau dan oruchwyliaeth ar gyfer y tasgau a phryd mae'r sesiynau dan oruchwyliaeth yn digwydd
- dylid rhoi amser i'r ymgeiswyr, cyn dechrau oriau dan oruchwyliaeth y dasg, i gynnal ymchwil/ymchwiliad annibynnol y gellir ei wneud y tu mewn a thu allan i'r ganolfan heb oruchwyliaeth uniongyrchol a heb fod angen ei gofnodi; rhaid cwblhau pob darn arall o waith ar gyfer tasgau Asesiad Di-arholiad dan oruchwyliaeth uniongyrchol a rhaid i'r darlithydd/athro ei gofnodi ar gyfer pob dysgwr. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am y cofnod amser hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd i'w gymedroli
- yn ystod y cyfnod ysgrifennu, dylai gwaith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser a dylid ei storio'n ddiogel rhwng gwersi
- gellir ysgrifennu tasgau â llaw neu ar brosesydd geiriau
- gall athrawon roi arweiniad a chymorth i ymgeiswyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall gofynion y tasgau Asesiad Di-arholiad a sut y cânt eu marcio ond, wedi i'r gwaith ddechrau, rhaid cyfyngu adborth i gyngor cyffredinol yn yr ystafell ddosbarth ynglŷn â'r hyn sydd angen ei gynnwys – ni cheir rhoi arweiniad penodol i ymgeiswyr unigol ynglŷn â sut i wneud gwelliannau
- nid oes gofyniad i'r ymgeiswyr gael gwybodaeth gynradd gan unigolyn, grŵp penodol o bobl neu weithiwr proffesiynol – pe bai ymgeisydd yn defnyddio'r dull hwn, rhaid i'r ymgeisydd a'r ganolfan barchu cyfrinachedd gwybodaeth a chydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

- Er nad oes gofyniad i ymgeiswyr ymweld â gweithiwr proffesiynol neu unigolyn fel rhan o'r gwaith ymchwil ar gyfer eu tasgau Asesiad Di-arholiad, efallai y bydd rhai canolfannau'n ystyried defnyddio
  dulliau gweithredu penodol, megis mynd â'r grŵp cyfan ar ymweliad, neu wahodd gweithiwr proffesiynol i siarad ag ymgeiswyr yn yr ystafell ddosbarth - yn yr achosion hyn, mae'n bwysig ystyried goblygiadau diogelu ar gyfer pob parti, fel gyda phob gweithgaredd ymgysylltu â'r sector
  cyn belled â phosibl, dylai'r holl ymgeiswyr gael yr un cyfle i gael yr un wybodaeth
- ar ôl cwblhau'r dasg, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith
- dylai'r darlithydd/athro gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar y tasgau asesu di-arholiad fel log. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd i'w gymedroli. Dylai'r log gael ei fonitro gan y ganolfan er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn treulio tua 6 awr ar Aseiniad 1 a 4 awr ar Aseiniad 2
- mae angen mewnbynnu marciau gwaith yr asesiad di-arholiad ar-lein erbyn dyddiad penodol ym mis Mai o flwyddyn cyflwyno'r gwaith i'w gymedroli. Pan gyflwynir y marciau i CBAC, bydd y system yn nodi sampl o ymgeiswyr y mae eu gwaith wedi'i ddewis i'w gymedroli
- dim ond y dystiolaeth gan yr ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer y sampl y dylid ei hanfon yn electronig gan ddefnyddio'r llwyfan ar-lein Secure Assess
- rhaid i waith pob ymgeisydd arall gael ei gadw yn y ganolfan
- mae'n rhaid i'r ymgeisydd a'r athro lofnodi'r daflen glawr
- rhaid dilysu gwaith pob ymgeisydd yn fewnol, nid y sampl yn unig, drwy lofnodi taflen glawr.

Rhoddir rhagor o fanylion am gyflwyno samplau yn

- [https://www.dysguiechydagofal.cymru/](https://www.dysguiechydagofal.cymru/)

## Marcio'r asesiadau di-arholiad

- mae cynlluniau marcio manwl wedi'u llunio i helpu athrawon i farcio'r asesiadau mewnol
- bydd taflenni clawr ar gael ar-lein i fynd gyda gwaith y dysgwyr
- bydd deunydd enghreifftiol sydd ar gael yn y canllawiau cyflwyno yn cynorthwyo gyda marcio a safoni
- gallai cynlluniau marcio sydd wedi cael eu haroleuo neu eu hanodi gan yr athro hefyd fynd gyda'r gwaith er mwyn rhoi eglurhad pellach o sut y dyfarnwyd marciau
- dylai safoni mewnol ddigwydd lle mae mwy nag un athro yn y ganolfan.

Unit 2 Task 2 Mark Sheet

Level 2 Health and Social Care: Principles and Contexts

Internal Non-exam assessment –

Name of Candidate: Candidate Number:

Name of Centre: Centre Number:

| Unit 2 Non-exam assessment: Task 2 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Question | Max. Mark | Centre Mark | Mod. Mark | CENTRE COMMENTS |
| 2 (a) | 12 | | | |
| 2 (b) | 18 | | | |
| | | | | |

## Cymedroli

- bydd Uned 2 yn cael ei chyflwyno i'w chymedroli ym mis Mai (blwyddyn cyflwyno)
- y fformat fydd: Uned 2: cyflwyno marciau ar gyfer y ddwy dasg, h.y. marc allan o 120, i system IAMIS ar y wefan ddiogel
- bydd sampl yn cael ei chynhyrchu'n electronig
- gellir cyflwyno gwaith yn electronig neu ar ffurf copi caled, naill ai wedi'i eir-brosesu, ei deipio neu ei ysgrifennu â llaw
- sampl o waith i'w phostio at y cymedrolwr erbyn 5 Mai; gellir gofyn am sampl ychwanegol os yn berthnasol
- adroddiadau'r cymedrolwyr i'w lawrlwytho o'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau
- bydd gwaith yn cael ei ddychwelyd i ganolfannau cyn diwedd tymor yr haf
- bydd gwaith enghreifftiol, unwaith y bydd ar gael, yn cael ei ddefnyddio yn y sesiynau DPP i gynorthwyo marcio mewn canolfannau, a bydd ar gael ar y wefan ddiogel.

# 8. MAPIO CYNNWYS AR DRAWS *LEFEL 2 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: CRAIDD* A'R CYMHWYSTER HWN (*LEFEL 2 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU)*

Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y disgwylir i ddysgwyr eu cyflawni yn ystod cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn adeiladu ar gynnwys cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Isod ceir enghraifft o sut y gellid mapio'r cymwysterau ar gyfer eu cyflwyno gan ddangos cynnwys tebyg y gellid ei gyflwyno ar yr un pryd o bosibl.

<table>
<tr><th>Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Uned Craidd 001<br>Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)</th><th colspan="2">Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau</th></tr>
<tr><td>Cynnwys a rhif y dudalen yn y fanyleb</td><td>Uned a rhif y dudalen yn y fanyleb</td><td>Cynnwys</td></tr>
<tr><td>Uned 001:1<br>Deall y ffordd mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a Chod Ymddygiad ac Ymarfer yn sail i iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth ar gyfer unigolion (tud. 19)</td><td rowspan="2">Uned 2 (2.4):<br>Iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (tud. 26)</td><td rowspan="2">• Dylai dysgwyr wybod a deall rôl y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru wrth osod deddfwriaeth a pholisïau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru (awdurdod datganoledig).<br>• Dylai dysgwyr wybod a deall sut y caiff ymarfer proffesiynol ei gefnogi gan drefniadau i gofrestru gweithwyr proffesiynol, cyrff rheoleiddio a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol.<br>• Dylai fod gan ddysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol o ddeddfwriaeth allweddol a'r ffordd y mae'n ategu gwaith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i hybu egwyddorion gofal wrth gefnogi a hybu iechyd a llesiant.<br>• Dylai dysgwyr wybod a deall bod egwyddorion gofal a chefnogaeth yn seiliedig ar yr egwyddor o hawliau dynol. Mae'r rhain yn deillio o ddeddfwriaeth bresennol ac yn disgrifio'r ffordd y dylai darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ymddwyn tuag at unigolion er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol.</td></tr>
<tr><td>Uned 001:2<br>Deall y ffordd mae dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol (tud.20)</td></tr>
</table>

| **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Uned Craidd 001<br>Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)** | **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau** | |
|---|---|---|
| Cynnwys a rhif y dudalen yn y fanyleb | Uned a rhif y dudalen yn y fanyleb | Cynnwys |
| **Uned 001:4**<br>Deall sut i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant **(tud.21)** | **Uned 1 (1.2):**<br>Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd **(tud.14)** | Dylai dysgwyr wybod a deall dylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd (cadarnhaol neu negyddol) ar dwf, iechyd a llesiant, a'r rhyngberthynas bosibl rhwng y ffactorau hyn. |
| **Uned 001:8**<br>Deall pwysigrwydd y Gymraeg a diwylliant Cymreig i unigolion a gofalwyr **(tud.22)** | **Uned 2 (2.4):**<br>Iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn **(tud. 26)** | **Fframwaith Strategol Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013):**<br>'Mwy na geiriau': fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r fframwaith yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ac yn cynnig dull gweithredu systematig ar gyfer gwella gwasanaethau i'r rheini y mae angen iddynt dderbyn eu gofal yn Gymraeg neu sy'n dewis gwneud hynny. |
| **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Uned Craidd 002<br>Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol<br>(plant a phobl ifanc)** | **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau** | |
| **Uned 002:1**<br>Deall y ffordd mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a Cod Ymddygiad ac Ymarfer yn sail i iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc **(tud.27)** | **Uned 2 (2.4):**<br>Iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn **(tud. 26)** | • Dylai dysgwyr wybod a deall rôl y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru wrth osod deddfwriaeth a pholisïau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru (awdurdod datganoledig).<br>• Dylai dysgwyr wybod a deall sut y caiff ymarfer proffesiynol ei gefnogi gan drefniadau i gofrestru gweithwyr proffesiynol, cyrff rheoleiddio a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Uned 002:1**<br>Deall y ffordd mae dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol **(tud. 20)** | | • Dylai fod gan ddysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol o ddeddfwriaeth allweddol a'r ffordd y mae'n ategu gwaith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i hybu egwyddorion gofal wrth gefnogi a hybu iechyd a llesiant.<br>• Dylai dysgwyr wybod a deall bod egwyddorion gofal a chefnogaeth yn seiliedig ar yr egwyddor o hawliau dynol. Mae'r rhain yn deillio o ddeddfwriaeth bresennol ac yn disgrifio'r ffordd y dylai darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ymddwyn tuag at unigolion er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol. |
| **Uned 002:4**<br>Deall sut i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant **(tud.20)** | **Uned 1 (1.2):**<br>Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd **(tud.14)** | Dylai dysgwyr wybod a deall dylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd (cadarnhaol neu negyddol) ar dwf, iechyd a llesiant, a'r rhyngberthynas bosibl rhwng y ffactorau hyn. |
| **Uned 002:8**<br>Deall pwysigrwydd y Gymraeg a diwylliant Cymreig i unigolion a gofalwyr **(tud.22)** | **Uned 2 (2.4):**<br>Iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn **(tud. 26)** | **Fframwaith Strategol Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013):**<br>'Mwy na geiriau': fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r fframwaith yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ac yn cynnig dull gweithredu systematig ar gyfer gwella gwasanaethau i'r rheini y mae angen iddynt dderbyn eu gofal yn Gymraeg neu sy'n dewis gwneud hynny. |

| Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Uned Craidd 003 Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion) | Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau | |
|---|---|---|
| **Uned 003:1**<br>Gwybod beth yw ystyr llesiant yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol **(tud.35)** | **Uned 1 (1.4):**<br>Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd **(tud.15)** | Dylai dysgwyr wybod a deall rôl a diben hybu iechyd a llesiant yn ystod pob cam bywyd. |
| **Uned 003:2**<br>Gwybod y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant unigolion **(tud.35)** | **Uned 1 (1.3):**<br>Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd **(tud.17)** | Dylai dysgwyr wybod a deall y ffactorau cadarnhaol a negyddol a all effeithio ar hunangysyniad a sut y gellir cefnogi hyn. |
| **Uned 003:8**<br>Deall pwysigrwydd maeth a hydradu i iechyd a llesiant plant unigolion **(tud.38)** | **Uned 1 (1.4):**<br>Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd **(tud. 18)** | Dylai dysgwyr wybod a deall sut i helpu unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. |
| **Uned 003:14**<br>Gwybod sut y gall salwch meddwl effeithio ar iechyd a llesiant unigolion **(tud.40)** | **Uned 1 (1.2):**<br>Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd **(tud.14)** | Dylai dysgwyr wybod a deall dylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd (cadarnhaol neu negyddol) ar dwf, iechyd a llesiant, a'r rhyngberthynas bosibl rhwng y ffactorau hyn. |
| Gwybod sut y gall camddefnyddio sylweddau effeithio ar iechyd a llesiant unigolion **(tud.40)** | | |

| **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Uned Craidd 004 Iechyd a llesiant (plant a phobl ifanc)** | **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau** | |
|---|---|---|
| Cynnwys a rhif y dudalen yn y fanyleb | Uned a rhif y dudalen yn y fanyleb | Cynnwys |
| **Uned 004:1**<br>Gwybod beth yw ystyr llesiant yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol **(tud.43)** | **Uned 1 (1.4):**<br>Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd<br>**(tud.18)** | Dylai dysgwyr wybod a deall rôl a diben hybu iechyd a llesiant yn ystod pob cam bywyd. |
| **Uned 004:2**<br>Gwybod beth yw'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc **(tud. 43)** | **Uned 1 (1.3):**<br>Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd<br>**(tud.17)** | Dylai dysgwyr wybod a deall y ffactorau cadarnhaol a negyddol a all effeithio ar hunangysyniad a sut y gellir cefnogi hyn. |
| **Uned 004:3**<br>Gwybod yr amgylcheddau sy'n cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad plant a phobl ifanc **(tud.44)** | | |
| **Uned 004:4**<br>Deall rôl chwarae mewn perthynas ag iechyd, llesiant a datblygiad plant **(tud.45)** | **Uned 1 (1.1):**<br>Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd<br>**(tud.12)** | Dylai dysgwyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o gerrig milltir disgwyliedig datblygiad corfforol, deallusol (gwybyddol), ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol sy'n digwydd yn ystod pob un o'r prif gamau bywyd. |
| **Uned 004:5**<br>Deall datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu **(tud.45)** | | |
| **Uned 004:7**<br>Gwybod sut i ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd sy'n eu helpu i wneud dewisiadau cadarnhaol ynghylch eu hiechyd a'u llesiant **(tud.46)** | **Uned 1 (1.4):**<br>Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd<br>**(tud.14)** | Dylai dysgwyr wybod a deall sut i helpu unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. |
| **Uned 004:10**<br>Deall pwysigrwydd maeth a hydradu i iechyd a llesiant plant unigolion **(tud.47)** | | |

<table>
<tr><th>Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Uned Craidd 005<br>Arfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol</th><th colspan="2">Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau</th></tr>
<tr><td>Uned 005:<br>Cynnwys a rhif y dudalen yn y fanyleb</td><td>Uned a rhif y dudalen yn y fanyleb</td><td>Cynnwys</td></tr>
<tr><td>Uned 005:1<br>Deall rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol (tud.50)</td><td rowspan="6">Uned 2 (2.3):<br>Iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (tud.24)</td><td rowspan="6">• Dylai dysgwyr wybod a deall rolau, cyfrifoldebau, llwybrau gyrfa a sgiliau a rhinweddau amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol mewn gwahanol leoliadau.<br>• Dylai dysgwyr wybod a deall cyfrifoldebau gweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.</td></tr>
<tr><td>Uned 005:2<br>Gwybod sut i feithrin a chynnal partneriaethau gwaith effeithiol ag eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (tud.51)</td></tr>
<tr><td>Uned 005:3<br>Gwybod sut mae gwaith tîm effeithiol yn cefnogi arfer da mewn iechyd a gofal cymdeithasol (tud.51)</td></tr>
<tr><td>Uned 005:4<br>Gwybod sut i ymdrin â gwybodaeth (tud.52)</td></tr>
<tr><td>Uned 005:5<br>Pwysigrwydd cynnal proffesiwn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol (tud.52)</td></tr>
<tr><td>Uned 005:6<br>Gwybod sut mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cyfrannu at ymarfer proffesiynol (tud.52)</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Uned Craidd 006<br>Diogelu unigolion</th><th colspan="2">Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau</th></tr>
<tr><td>Uned 006:<br>Cynnwys a rhif y dudalen yn y fanyleb</td><td>Uned a rhif y dudalen yn y fanyleb</td><td>Cynnwys</td></tr>
<tr><td>Uned 006:1<br>Deall diben deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chodau ymddygiad ac ymarfer o ran diogelu unigolion (tud.55)</td><td rowspan="4">Uned 2 (2.4):<br>Iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (tud. 26)</td><td rowspan="4">• Dylai dysgwyr wybod a deall bod egwyddorion gofal a chefnogaeth yn seiliedig ar yr egwyddor o hawliau dynol. Mae'r rhain yn deillio o ddeddfwriaeth bresennol ac yn disgrifio'r ffordd y dylai darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ymddwyn tuag at unigolion er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol<br>• Dylai dysgwyr wybod a deall diben deddfwriaeth a pholisïau diogelu a sut maent yn dylanwadu ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.</td></tr>
<tr><td>Uned 006:2<br>Deall sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu unigolion rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod (tud.55)</td></tr>
<tr><td>Uned 006:3<br>Deall y ffactorau, y sefyllfaoedd a'r gweithredoedd a allai arwain at niwed, cam-drin ac esgeulustod (tud.56)</td></tr>
<tr><td>Uned 006:4<br>Gwybod sut i ymateb i bryderon, datgeliadau neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu, eu cofnodi ac adrodd amdanynt (tud.57)</td></tr>
<tr><th>Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Uned Craidd 007<br>Iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol</th><th colspan="2">Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau</th></tr>
<tr><td>Uned 007:<br>Cynnwys a rhif y dudalen yn y fanyleb</td><td>Uned a rhif y dudalen yn y fanyleb</td><td>Cynnwys</td></tr>
<tr><td>Uned 007:1<br>Gwybod sut i fodloni gofynion deddfwriaethol o ran iechyd a diogelwch yn y gweithle (tud.60)</td><td rowspan="4">Uned 2 (2.4):<br>Iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (tud.26)</td><td rowspan="4">Dylai fod gan ddysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol o ddeddfwriaeth allweddol a'r ffordd y mae'n ategu gwaith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i hyrwyddo egwyddorion gofal wrth gefnogi a hybu iechyd a llesiant.</td></tr>
<tr><td>Uned 007:2<br>Gwybod sut y caiff asesiadau risg eu defnyddio i gefnogi iechyd a diogelwch yn y gweithle (tud.60)</td></tr>
<tr><td>Uned 007:3<br>Gwybod sut i hyrwyddo diogelwch tân mewn lleoliadau gwaith (tud.61)</td></tr>
<tr><td>Uned 007:8<br>Gwybod sut i gadw'r lleoliad gwaith yn ddiogel (tud.63)</td></tr>
</table>

# 9. RHESTR TERMAU

Isod ceir rhestr o dermau a all fod yn ddefnyddiol i chi wrth gyflwyno cynnwys Uned 1 a 2.

| | |
|---|---|
| Cam-drin | Niwed a achosir gan unrhyw un sydd â phŵer dros berson arall, a all gynnwys aelodau o'r teulu, ffrindiau, gofalwyr di-dâl neu weithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol. Gall ymddangos mewn sawl ffurf, gan gynnwys niwed corfforol neu esgeulustod, a cham-drin geiriol, emosiynol neu rywiol. Gall oedolion sy'n wynebu risg hefyd gael eu cam-drin yn ariannol gan bobl maent yn ymddiried ynddynt. |
| Atebolrwydd | Pan fydd person neu sefydliad yn gyfrifol am sicrhau bod pethau'n digwydd ac y disgwylir iddo esbonio beth ddigwyddodd a pham. |
| Gofal acíwt | Gofal iechyd a dderbynnir yn yr ysbyty yn dilyn anaf, llawdriniaeth neu salwch annisgwyl. |
| Penderfyniad ymlaen llaw | Penderfyniad a wneir ynghylch triniaeth feddygol y byddai unigolyn am ei chael neu na fyddai am ei chael yn y dyfodol, pe na fyddai'n gallu gwneud penderfyniad oherwydd salwch neu am na fyddai'r gallu ganddo i gydsynio. |
| Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | Profiadau trawmatig sy'n digwydd cyn 18 oed ac a gofir drwy gydol pob cyfnod mewn bywyd yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae'r profiadau hyn yn amrywio o gam-drin geiriol, meddyliol, rhywiol a chorfforol, i fagwraeth mewn cartref lle mae cam-drin domestig, camddefnyddio alcohol, rhieni'n gwahanu neu gamddefnyddio cyffuriau. Dengys tystiolaeth fod plant sy'n cael plentyndod gwael sy'n llawn straen yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn fwy tebygol o wneud yn wael yn yr ysgol, yn fwy tebygol o ymwneud â throseddu ac, yn y pen draw, yn llai tebygol o fod yn aelod cynhyrchiol o gymdeithas. |
| Eiriolaeth | Mae eiriolaeth yn helpu ac yn galluogi pobl sy'n ei chael hi'n anodd cynrychioli eu diddordebau i arfer eu hawliau, mynegi eu barn, ystyried a gwneud dewisiadau hyddysg. |
| Y broses heneiddio | colli gwallt, colli tôn y cyhyrau, symudedd, cryfder, sgiliau echddygol manwl, golwg a chlyw. |
| Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Cysylltiedig | Pobl sy'n darparu mathau gwahanol o ofal iechyd nad ydynt yn feddygon, yn nyrsys nac yn fferyllyddion. Mae'r disgrifiad yn cynnwys amrywiaeth eang o rolau, gan gynnwys ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, deietegwyr, podiatryddion ac eraill. |
| Asesiadau | Y broses o ganfod beth yw anghenion unigolyn. Bydd asesiad gofal yn edrych ar y ffordd mae'r unigolyn yn ymdopi â gweithgareddau pob dydd, megis gofalu amdano'i hun, tasgau yn y cartref a mynd o le i le. |

| | |
|---|---|
| Byw â chymorth | Tai i bobl hŷn neu bobl anabl, dan berchnogaeth breifat fel arfer, lle gallant fyw yn eu fflat eu hunain mewn datblygiad mwy, a gellir darparu cefnogaeth (megis help gyda phrydau neu olchi dillad) er mwyn diwallu anghenion penodol. |
| Ymreolaeth | Cael rheolaeth a dewis mewn bywyd a'r rhyddid i benderfynu ar yr hyn sy'n digwydd. Hyd yn oed pan fydd angen llawer o ofal a chefnogaeth ar unigolyn, dylai allu gwneud ei benderfyniadau ei hun o hyd a chael ei drin ag urddas. |
| CAMHS | Gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan y GIG i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n profi problemau ymddygiadol neu emosiynol megis iselder, anawsterau bwyta, gorbryder, problemau cysgu, ymddygiad treisgar neu ddig, a phethau eraill. |
| Galluedd | Mae cael galluedd meddyliol yn golygu bod unigolyn yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i unigolion allu deall a chofio gwybodaeth a chyfleu'r hyn y maent wedi penderfynu arno'n glir, bod yn eiriol neu'n ddieiriau. Mae'n bosibl na fydd gallu gan berson oherwydd problem iechyd meddwl, dementia neu anghenion dysgu ychwanegol. |
| Fforymau gofal | Sefydliadau gwirfoddol nid er elw yw'r rhain sy'n rhoi llais torfol i ddarparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn y ddadl o ran sut i ddarparu'r canlyniadau gorau i bobl y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt. Maent hefyd yn darparu hyfforddiant, yn rhannu arferion gorau ac adnoddau, ac yn hyrwyddo pa mor bwysig ydyw i weithwyr gofal fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth gyfredol. |
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) | Mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru. |
| Llwybr Gofal | Cynllun ar gyfer gofal rhywun sydd â chyflwr iechyd penodol ac a fydd yn symud rhwng gwasanaethau. Mae'n nodi mewn un ddogfen yr hyn sy'n ddisgwyliedig a phryd, a phwy sy'n gyfrifol. |
| Cynlluniau Gofal | Cynllun ysgrifenedig ar ôl asesiad yn nodi pa anghenion gofal a chefnogaeth y gall person eu cael, sut y caiff anghenion eu diwallu a pha wasanaethau y bydd unigolyn yn eu derbyn. Dylai unigolyn gael y cyfle i gael ei gynnwys yn llawn yn y cynllun ac i nodi ei flaenoriaethau ei hun. Os bydd unigolyn yn byw mewn cartref gofal neu'n mynychu gwasanaeth dydd, mae'n bosibl mai cynllun gofal fydd yr enw ar y cynllun ar gyfer ei ofal dyddiol hefyd. |
| Cyflwr cronig | Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor na ellir gwella'n llwyr ohono ond y gellir ei reoli fel arfer â meddyginiaethau, triniaethau, gofal a chefnogaeth. |

| | |
|---|---|
| Archwiliad clinigol | Ffordd o ganfod a yw'r gofal iechyd a ddarperir gan sefydliad penodol yn ddigon da, a beth sydd angen ei wneud yn well. Mae'n cynnwys ystyried sut y dylid gwneud pethau, cymharu'r hyn sy'n cael ei wneud mewn gwirionedd, gwneud newidiadau lle bo angen, ac yna edrych ar bethau unwaith eto er mwyn gweld a ydynt wedi gwella. |
| Llwybrau Clinigol | Adnoddau a ddefnyddir i lywio gofal iechyd seiliedig ar dystiolaeth yw llwybrau clinigol. |
| Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol | Y safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd, gweithwyr nyrsio cysylltiedig a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill eu cynnal er mwyn cofrestru i weithio yn y DU. |
| Gwasanaethau wedi'u Comisiynu | Darpariaeth o ganlyniad i gynllunio gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion iechyd neu ofal cymdeithasol y boblogaeth, datblygu a rheoli contractau gyda darparwyr er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion ar gyfer monitro ac adolygu ansawdd, diogelwch a pherfformiad y gwasanaeth. |
| Cynghorau Iechyd Cymuned | Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn cynnig help a chyngor os oes gennych broblemau gyda gwasanaeth y GIG neu gwynion am un. Maent yn sicrhau bod eich barn a'ch anghenion yn dylanwadu ar y polisïau a'r cynlluniau a gaiff eu rhoi ar waith gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd yn eich ardal, maent yn monitro ansawdd gwasanaethau'r GIG o'ch safbwynt chi a gallant roi gwybodaeth i chi am fynediad at wasanaethau'r GIG. |
| Cydafiachedd | Byw gyda mwy nag un cyflwr iechyd ar yr un pryd. |
| Cyflyrau cynhenid | Nam ar y galon, taflod hollt, troed clwb, syndrom alcohol y ffoetws. |
| Cydsyniad | Rhoi caniatâd i rywun wneud rhywbeth. |
| Cydgynhyrchu | Pan fydd unigolyn yn rhan o'r broses o ddylunio'r gefnogaeth a'r gwasanaethau mae'n eu derbyn fel partner cyfartal.Mae cydgynhyrchu yn cydnabod bod gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol (a'u teuluoedd) wybodaeth a phrofiad y gellir eu defnyddio i wneud gwasanaethau'n well, nid yn unig iddyn nhw eu hunain ond i bobl eraill sydd angen gofal cymdeithasol hefyd. |
| Cyflwr dirywiol | Afiechyd sy'n gwaethygu dros amser. |
| Dementia | Term sy'n disgrifio grŵp o symptomau sy'n gysylltiedig â dirywiad yn y cof neu o ran sgiliau meddwl eraill sy'n ddigon difrifol i leihau gallu person i ymgymryd â gweithgareddau cyffredin. Mae clefyd Alzheimer yn gyfrifol am 60-80% o achosion. |

| | |
|---|---|
| Urddas | Haeddu parch fel bod dynol a chael eich trin fel rhywun o bwys. |
| Galluogi | Ffordd o helpu rhywun i ddod yn fwy annibynnol drwy ddatblygu'r gallu i symud o gwmpas a chyflawni tasgau pob dydd drosto'i hun. |
| Gofal Diwedd Oes | Cefnogaeth i bobl sydd ym misoedd neu flynyddoedd olaf eu bywyd. |
| Sgiliau echddygol manwl | Rheolaeth dros gyhyrau bach yn y bysedd a'r dwylo megis gafael palfaidd, gafael pinsiwrn, gafael treipod, defnyddio cyllell a fforc a datblygu sgiliau tynnu llun. |
| Sgiliau echddygol bras | Meithrin rheolaeth dros gyhyrau mawr megis rheoli'r pen, eistedd, cropian, cerdded, rhedeg, meithrin ymdeimlad o gydbwysedd, hercian, dringo, neidio, taflu a chicio pêl. |
| Byrddau Iechyd | Mae'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn cynllunio, yn cadarnhau ac yn cyflwyno gwasanaethau gofal iechyd yn eu hardaloedd. |
| Gofal cyfannol | Gofal a chefnogaeth sy'n trin y person cyfan ac yn ystyried eu holl anghenion ar yr un pryd – corfforol, seicolegol, cymdeithasol ac ysbrydol. |
| Cyflwr hirdymor | Salwch neu gyflwr iechyd na ellir gwella'n llwyr ohono ond y gellir ei reoli fel arfer â meddyginiaethau neu driniaethau eraill. Mae enghreifftiau yn cynnwys asthma, diabetes, arthritis, epilepsi a phethau eraill. |
| Codi a chario | Pan fyddwch yn symud neu'n codi rhywun neu rywbeth sy'n drwm ac sy'n gallu achosi straen corfforol. |
| Menopos | Newidiadau corfforol: y mislif yn dod i ben neu'n afreolaidd, chwysu yn y nos, pyliau o wres, croen sych, sychder yn y wain, poenau yn y cyhyrau a'r cymalau. |
| Economi gofal gymysg | Darparu gwasanaethau gan amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys y sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector. Gofal statudol: gofal y mae'r wladwriaeth yn talu amdanynt ac yn eu darparu, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol; er enghraifft, gwasanaethau'r GIG, ysbytai, canolfannau iechyd, gwasanaethau awdurdodau lleol, gofal cymdeithasol, gwasanaethau a gomisiynir. Gofal preifat: gwasanaethau a gaiff eu rhedeg fel busnes; er enghraifft, BUPA, deintyddion preifat, cartrefi preswyl/nyrsio. Y trydydd sector: elusennau cofrestredig, sefydliadau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol. |
| Model Gofal | Ffordd o ddarparu gofal yn seiliedig ar gyfres o gredoau ac egwyddorion o ran yr hyn sy'n gywir ac yn gweithio orau. Mae amrywiol ffyrdd o ddarparu gofal, a bydd pob sefydliad yn penderfynu pa fodel i'w ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| Gweithio amlasiantaethol | Pan fydd sefydliadau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cefnogaeth amrywiol i bobl sydd ag ystod eang o anghenion. |
| Timau Amlddisgyblaeth | Tîm o weithwyr proffesiynol gwahanol (megis meddygon, nyrsys, therapyddion, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol ac eraill) yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal a chefnogaeth sy'n diwallu anghenion gofal. |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol. |
| Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) | Sefydliad sy'n darparu cyngor a chanllawiau i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n edrych ar yr holl dystiolaeth mewn perthynas â'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio a faint mae'n ei gostio, ac yn cynghori ar ba driniaeth a gofal y dylid eu cynnig i bobl. |
| Canlyniadau | Ym maes gofal cymdeithasol, mae 'canlyniad' yn cyfeirio at nod neu amcan yr hoffai unigolyn ei gyflawni neu y mae angen iddo ddigwydd - er enghraifft, parhau i fyw yn ei gartref ei hun, neu'r gallu i fynd o le i le. Dylai unigolion allu dweud pa ganlyniadau sydd bwysicaf iddynt a chael cefnogaeth i gyflawni'r canlyniadau hynny. |
| Gofal lliniarol | Gofal a ddarperir i rywun os oes ganddo salwch datblygedig, cynyddol nad oes modd ei wella. Y nod yw rheoli poen a symptomau eraill a helpu i gael bywyd o'r ansawdd gorau. Gellir ei ddarparu yn y cartref neu mewn ysbyty neu hosbis. |
| Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | Canolbwyntio gofal ar anghenion yr unigolyn yn hytrach nag anghenion y gwasanaeth. |
| Ymarferwr | Person sy'n gweithio mewn swydd fedrus megis gwaith cymdeithasol, nyrsio neu feddygaeth, sy'n darparu gofal neu gefnogaeth yn uniongyrchol i bobl. |
| Beichiogrwydd | Newidiadau corfforol: Magu pwysau, bronnau tyner mwy o faint, troethi aml, llosg cylla, rhwymedd, poenau yn y coesau |
| Gofal Sylfaenol | Y pwynt cyswllt cyntaf yn y gwasanaeth iechyd, y meddyg teulu, nyrs y feddygfa, fferyllydd lleol, deintydd neu ganolfan galw heibio'r GIG fel arfer. |
| Corff proffesiynol | Sefydliad sy'n cynrychioli grŵp o bobl y mae pob un ohonynt yn rhan o'r un proffesiwn, megis meddygon neu weithwyr cymdeithasol. Mae corff proffesiynol yn cefnogi ei aelodau ac mae'n bosibl hefyd y bydd yn sicrhau bod eu gwaith o safon ddigonol. |
| Gofal iechyd darbodus | Gofal iechyd sy'n cyd-fynd ag anghenion ac amgylchiadau cleifion ac yn osgoi gofal gwastraffus. |
| Oed aeddfedrwydd | Gwahanol newidiadau sy'n digwydd mewn merched/bechgyn, tyfu'n sydyn, hormonau. |

| | |
|---|---|
| Iechyd y Cyhoedd | Mae iechyd y cyhoedd yn ymwneud ag iechyd y boblogaeth fel grŵp yn hytrach nag unigolion. |
| Ailalluogi | Ffordd o helpu unigolyn i aros yn annibynnol drwy roi'r cyfle iddo ailddysgu neu ailennill rhai o'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer bywyd pob dydd y gallai fod wedi'u colli oherwydd salwch, damwain neu anabledd. |
| Adsefydlu | Pan fydd unigolyn yn cael ei gefnogi'n weithredol i wella o anaf neu salwch ac adennill y gallu i wneud pethau drosto'i hun. |
| Gofal seibiant | Gwasanaeth sy'n rhoi seibiant i ofalwyr drwy ddarparu gofal byrdymor i'r person ag anghenion gofal yn ei gartref ei hun neu mewn lleoliad preswyl. Gall olygu ychydig oriau yn ystod y dydd neu gyda'r nos, 'gofalu dros nos', neu seibiant hwy. Gall hefyd fod o fudd i'r person ag anghenion gofal drwy roi'r cyfle iddo roi cynnig ar weithgareddau newydd a chwrdd â phobl newydd. |
| Ymarfer myfyriol | Mae ymarfer myfyriol yn ffordd o astudio profiadau personol er mwyn gwella'r ffordd y mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio. |
| Amserlen Sgiliau Tyfu | Adnodd sgrinio safonedig yn seiliedig ar ymchwil er mwyn asesu cerrig milltir datblygiadol mewn plant a gweithredu fel dangosydd pan gellir cael oedi posibl yn natblygiad plant cyn oed ysgol. Cafodd ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio gyda phob plentyn Dechrau'n Deg pan oeddent yn 2 a 3 oed. Mae'n mesur sgiliau o ran trin, ymsymud, golwg, clyw, iaith a lleferydd, rhyngweithio, hunanofal a sgiliau cymdeithasol. |
| Gwasanaeth di-dor | Pan ddarperir gofal yn llyfn, gyda chydlyniad da rhwng yr unigolion a'r sefydliadau perthnasol heb unrhyw fylchau. |
| Gofal Eilaidd | Gofal a dderbynnir yn yr ysbyty, naill ai fel claf mewnol neu glaf allanol. Gall hyn fod yn ofal wedi'i gynllunio neu'n ofal brys. Mae'n fwy arbenigol na gofal sylfaenol. |
| Grwpiau hunangymorth | Grwpiau o unigolion yw'r rhain sy'n cefnogi ei gilydd mewn grŵp hunangymorth. Efallai y bydd yr aelodau yn rhannu problemau, cyflyrau, ymddygiadau caethiwus neu brofiadau cyffredin. |
| Hunanofal | Pethau y gall unigolion eu gwneud drostynt eu hunain er mwyn aros mor iach â phosibl. Mae hyn yn cynnwys popeth o fwyta bwyd iach a gofalu am fân afiechydon i ymdopi â chyflwr hirdymor megis diabetes. Nid yw'n golygu ymdopi ar eich pen eich hun yn llwyr heb feddyg, nyrs neu weithiwr proffesiynol. |
| Defnyddiwr gwasanaeth | Person sy'n derbyn gwasanaethau gan ddarparwr gofal a chefnogaeth. |

| | |
|---|---|
| Gofal Cymdeithasol | Unrhyw help y gall fod ei angen ar unigolyn, megis gofal personol neu gymorth ymarferol, i fyw ei fywyd mor gyfforddus ac annibynnol â phosibl, oherwydd ei oedran, salwch neu anabledd. |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Sefydliad a ariennir gan y Llywodraeth sy'n ceisio gwella ansawdd y gofal a'r gefnogaeth y gall pobl eu disgwyl yng Nghymru. |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Cyfraith sy'n ceisio gwneud gofal a chymorth yn bersonol i anghenion unigolion, gan eu helpu i fyw y bywyd o'u dewis ac aros yn annibynnol yn hwy. |

| | |
|---|---|
| Rhanddeiliaid | Pobl neu grwpiau sydd â diddordeb yn yr hyn y mae sefydliad yn ei wneud, ac y mae ei benderfyniadau a'i weithredoedd yn effeithio arnynt. Pan fydd sefydliad megis cyngor lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG yn bwriadu newid y ffordd mae'n gweithio neu'r gwasanaethau mae'n eu cynnig, gall gynnal ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid er mwyn casglu barn pobl a chlywed eu profiadau. |
| Gofal Trydyddol | Gofal iechyd hynod arbenigol sy'n gofyn am arbenigedd a chyfarpar penodol sydd ar gael mewn ysbytai arbenigol yn unig. Mae enghreifftiau yn cynnwys triniaeth ar gyfer canser, llawdriniaeth ar y galon a phethau eraill. |
| Y trydydd sector | Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r ystod o sefydliadau nad ydynt yn y sector cyhoeddus na'r sector preifat. Mae'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (gan gynnwys elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill megis cymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol), mentrau cymdeithasol a chydweithfeydd. |
| Gofalwyr di-dâl/anffurfiol | Mae gofalwr anffurfiol yn cynnwys unrhyw unigolyn, megis aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, sy'n darparu cymorth rheolaidd, parhaus i unigolyn arall heb dâl am y gofal a roddir. Mae'r rhain yn aml yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol/ymarferwyr. |
| Gofal annisgwyl | Gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol heb eu cynllunio. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 | Wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau, mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol. |
| Gofalwr ifanc | Person ifanc 18 oed neu iau sy'n gofalu, neu'n helpu i ofalu, am aelod o'r teulu neu ffrind sydd â salwch, anabledd neu broblem gyda chyffuriau neu alcohol. Gall fod yn gyfrifol am goginio, glanhau, siopa, gofal personol neu gefnogaeth emosiynol. |

# 10. ROLAU YN Y SECTOR IECHYD A GOFA CYMDEITHASOL

### Rolau Gofal Cymdeithasol

- **Rolau ategol:** nid yw'r rolau hyn yn cynnwys gofal uniongyrchol ond maent yn hanfodol i'r broses o redeg sefydliad, er enghraifft, cogydd neu gynorthwyydd cegin, swyddog cadw tŷ neu weithiwr domestig, gyrrwr neu reolwr trafnidiaeth, gweithiwr cynnal a chadw
- **Rolau gofal uniongyrchol:** mae'r rolau hyn yn gweithio'n uniongyrchol ag unigolion y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt; er enghraifft, gweithiwr gweithgareddau, gweithiwr gofal, cynorthwyydd personol, gweithiwr ailsefydlu, gweithiwr eiriolaeth
- **Rolau rheoli:** mae'r rolau hyn yn cynnwys cyfrifoldeb rheolaethol; er enghraifft, arweinydd tîm neu oruchwylydd, rheolwr, cydlynydd arbenigol megis cydlynydd gofal dementia neu gydlynydd gofal diwedd oes
- **Rolau cefnogi gofal cymdeithasol eraill:** er enghraifft, swyddog cymorth tai, cydlynydd gwirfoddolwyr, swyddog hawliau lles, hyfforddwr neu aseswr, cynghorydd cyflogaeth
- **Rolau proffesiynol rheoleiddiedig:** Er mwyn cyflawni'r rolau hyn, mae angen i'r gweithiwr fod wedi'i gofrestru â chorff rheoleiddiedig i ymarfer. Mae angen meddu ar gymwysterau perthnasol ar eu cyfer a allai gynnwys gradd neu ddiploma israddedig; er enghraifft, gweithiwr cymdeithasol, cwnselydd.

### Rolau gofal iechyd

- **Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd:** deietegydd, ffisiotherapydd, podiatrydd, therapydd iaith a lleferydd, radiograffydd, ac ati
- **Tîm gwasanaeth ambiwlans:** parafeddyg, derbynnydd galwadau, cynorthwyydd gofal brys
- **Tîm deintyddol:** deintydd, nyrs ddeintyddol, hylenydd deintyddol
- **Meddygon:** ymarferwyr cyffredinol (meddygon teulu), llawfeddygaeth gyffredinol, meddyg pediatrig
- **Gwybodeg iechyd:** cofnodion iechyd a gwaith gweinyddol cleifion, rheoli projectau a rhaglenni
- **Gwyddor gofal iechyd:** gwyddorau'r gwaed, dosbarthwr cymhorthion clyw, gwyddorau anadlol, ffisioleg a chwsg
- **Rheolaeth:** rheolwr clercaidd, rheolwr ariannol, rheolwr practis
- **Galwedigaethau meddygol cyswllt:** meddyg cyswllt, ymarferydd gofal llawfeddygol
- **Bydwreigiaeth:** bydwraig
- **Nyrsio:** nyrs oedolion, nyrs plant, nyrs ardal, nyrs anghenion dysgu ychwanegol, nyrs iechyd meddwl
- **Fferylliaeth:** fferyllydd, cynorthwyydd fferyllfa, technegydd fferyllfa
- **Therapïau seicolegol:** cwnselydd, seicotherapydd, seicolegydd
- **Iechyd y cyhoedd:** ymwelydd iechyd, nyrs iechyd galwedigaethol, nyrs ysgol
- **Tîm gofal iechyd ehangach:** staff diogelwch, glanhawr ffenestri, porthor.

**Gofal a chefnogaeth yn y cartref:** gwasanaeth i unigolion sydd am fyw yn eu cartrefi eu hunain gyda chefnogaeth pan fydd ei angen arnynt yw hwn. Gellir ei gynnig i unigolion sydd ag anghenion iechyd, gofal a chefnogaeth cymhleth hefyd. Caiff unigolion eu cefnogi gyda dewis a rheolaeth, cyfathrebu, bwyta a gofal maethol, rheoli poen, hylendid personol, cymorth ymarferol, preifatrwydd. Gan fod gweithwyr gofal yn cefnogi unigolion gyda'u hanghenion gofal a chefnogaeth, gallant barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain.
**Swyddi:** swyddog cymorth, gweithiwr cymorth, gweithiwr gofal.

**Gofal a gaiff plant a phobl ifanc:** gweithwyr proffesiynol allweddol yn cydweithio i ddarparu gofal a chefnogaeth gydag addysg, cyflogaeth, iechyd, tai a llesiant. Caiff unigolion eu cefnogi gan weithwyr gofal i gyflawni eu canlyniadau.
**Swyddi:** gweithiwr gofal preswyl, gofalwr maeth.

**Plant sy'n wynebu risg/plant mewn angen:** gweithwyr allweddol o'r awdurdod lleol, yr heddlu, ymddiriedolaeth iechyd a gwasanaeth prawf yn cydweithio. O ganlyniad i'r dull gweithredu amlasiantaeth hwn, rhoddir cynllun gofal a chefnogaeth ar waith i ddiogelu'r plentyn.
**Swyddi:** gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr cymorth plant a phobl ifanc.

**Ailalluogi:** gwasanaeth byr, dwys a dros dro yw hwn a gaiff ei ddarparu yn y cartref fel arfer. Caiff ei gynnig i unigolion sy'n gwella o salwch neu anaf. Yn dilyn asesiad o'r hyn y maent yn gallu ei wneud, gosodir nodau byrdymor er mwyn cyflawni canlyniadau. Gall y rhain gynnwys cymorth i wisgo, defnyddio'r grisiau, ymolchi a pharatoi prydau. O ganlyniad i weithwyr gofal yn cefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau, gallant adennill eu hannibyniaeth.
**Swyddi:** gweithiwr gofal ailalluogi, therapydd galwedigaethol ailalluogi, gweithiwr cymorth ailalluogi.

**Gofal a chefnogaeth preswyl a nyrsio:** gan ddibynnu ar anghenion yr unigolyn, darperir cefnogaeth gyda gweithgareddau dyddiol megis hylendid personol, gwisgo, bwyta a cherdded. Mae gofal nyrsio ar gyfer unigolion sydd angen gofal meddygol parhaus ynghyd â chymorth gyda gweithgareddau dyddiol. Caiff unigolion eu cefnogi gan weithwyr gofal i gyflawni eu canlyniadau.
**Swyddi:** nyrs, cynorthwyydd gofal, rheolwr cartref gofal.

# 11. DEDDFWRIAETH DDEFNYDDIOL

Dylai fod gan ddysgwyr ddealltwriaeth **sylfaenol** o ddeddfwriaeth allweddol a'r ffordd y mae'n ategu gwaith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i hybu egwyddorion gofal wrth gefnogi a hybu iechyd a lles:

## 1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- Mae'n darparu'r fframwaith cyfreithiol a ddefnyddir ar gyfer gwella llesiant unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Fe'i defnyddir hefyd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru drwy osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt hybu llesiant y rheini y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu ofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

  Mae egwyddorion y ddeddf yn cynnwys y canlynol:
  - cydgynhyrchu
  - atal ac ymyrryd yn gynnar
  - llais a rheolaeth
  - llesiant.

Ceir rhagor o wybodaeth a ffeithluniau yn amlinellu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei olygu i'r unigolyn sy'n derbyn gofal a'r hyn y mae'r Ddeddf yn ei olygu i ofalwyr, yn https://gweddill.llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/index1b1b.html?force=cy .

## 2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Y nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y dyfodol; mae'n hysbysu'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf am eu rhwymedigaeth gyfreithiol i:

  - ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau
  - ceisio atal problemau a gweithio mewn ffordd sy'n fwy cydlynol
  - gweithio gydag unigolion, cymunedau a'i gilydd.
  - mae'n sicrhau am y tro cyntaf bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio mewn ffordd gynaliadwy,

    I gynnwys:
    - bodloni egwyddorion datblygu cynaliadwy
    - gosod a chyhoeddi amcanion llesiant
    - gweithio i gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf.

Mae rhagor o wybodaeth, animeiddiadau a dogfennau sy'n amlinellu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gael yn: https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau .

## 3 Fframwaith Strategol Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2013

- Fframwaith ar gyfer gwasanaethau Cymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yw ***Mwy na Geiriau*** sy'n amlinellu'r sefyllfa bresennol ac yn darparu dull gweithredu systemig i wella gwasanaethau i'r bobl hynny y mae angen iddynt dderbyn eu gofal yn Gymraeg neu sy'n dewis gwneud hynny.

Ceir rhagor o wybodaeth a phecynnau gwybodaeth am y fframwaith *Mwy na Geiriau* yn https://gweddill.llyw.cymru/topics/health/publications/health/guidance/words/index1b1b.html?force=cy .

Dylai dysgwyr wybod a deall diben deddfwriaeth a pholisïau diogelu a sut maent yn dylanwadu ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys:

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Canllawiau ar Ddiogelu Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o fanylion am ddeddfwriaeth a pholisïau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gael yn https://www.dysguiechydagofal.cymru/.

- Dylai dysgwyr wybod a deall bod egwyddorion gofal a chefnogaeth yn seiliedig ar yr egwyddor o hawliau dynol. Mae'r rhain yn deillio o ddeddfwriaeth bresennol ac yn disgrifio'r ffordd y dylai darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ymddwyn tuag at unigolion er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol drwy hybu:

    - llais a rheolaeth
    - cyfrinachedd
    - cydgynhyrchu
    - urddas
    - dyletswydd gofal
    - cyfathrebu effeithiol
    - empathi
    - cydraddoldeb a chynhwysiant
    - nodi ac osgoi arferion annerbyniol
    - gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
    - cefnogaeth ymddygiadol gadarnhaol a gwybod pryd mae'n briodol i ddefnyddio arferion cyfyngol
    - parch tuag at amrywiaeth a natur unigryw unigolion
    - hawl yr unigolyn: credoau, hunaniaeth, dewisiadau ac anghenion ieithyddol.

# 12. ADNODDAU

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
https://gofalcymdeithasol.cymru/

**Gofal Cymdeithasol Cymru: Dysgu a Datblygiad**
https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu
Sefydliad sy'n cynnig gwybodaeth ac adnoddau i helpu gyda recriwtio, sefydlu, datblygiad proffesiynol parhaus a chymwysterau. Mae yna hefyd wybodaeth am reoleiddio hyfforddiant ac arfer gorau.

**Gofal Cymdeithasol Cymru: Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle**
https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle
Pam mae'n bwysig defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a'r hyn y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac yn y sectorau blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru. Mae adnoddau ar gael i gefnogi cyflogwyr a gweithwyr i hyrwyddo'r fenter hon.

**Gofal Cymdeithasol Cymru: Diogelu**
https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/diogelu
Adnoddau diogelu

**Gofal Cymdeithasol Cymru: Hyb Gwybodaeth a Dysgu**
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan
Siop un stop i gael gwybodaeth ac adnoddau am ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol Cymru. Mae'r Hyb yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau dysgu i gefnogi dysgu mewn perthynas â'r Deddfau. Caiff adnoddau eu hychwanegu a'u diweddaru'n rheolaidd.

**Arolygiaeth Gofal Cymru**
https://arolygiaethgofal.cymru
Y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cofrestru ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Addysg a Gwella Iechyd Cymru**
https://aagic.gig.cymru/
Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o addysgu, hyfforddi, datblygu a llunio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru. Mae ei swyddogaethau allweddol yn cynnwys addysg a hyfforddiant, datblygu a moderneiddio'r gweithlu, datblygu arweinwyr, cynllunio'r gweithlu'n strategol, gwybodaeth am y gweithlu, gyrfaoedd ac ehangu mynediad.

**Gwasanaeth Gweithlu, Addysg a Chyflwyno GIG Cymru: Gyrfaoedd GIG Cymru**
http://www.weds.wales.nhs.uk/gyrfaoedd-gig-cymru
Mae Gyrfaoedd GIG Cymru yn rhan o wasanaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Mae'r wefan hon yn cefnogi pobl ar bob cam o'u gyrfa i ddarganfod mwy am rolau a chyfleoedd sydd ar gael ym maes iechyd.

Fforwm Gofal Cymru
www.fforwmgofalcymru.co.uk
Mae Fforwm Gofal Cymru yn cynrychioli dros 450 o gartrefi gofal, cartrefi nyrsio a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol eraill ledled Cymru.

**Llywodraeth Cymru: Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
https://llyw.cymru/iechyd-a-gofal-cymdeithasol
Canllawiau i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

**Llywodraeth Cymru: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
https://gweddill.llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/index1b1b.html?force=cy
Ffeithluniau hawdd i'w deall sy'n esbonio'r Ddeddf y gellir eu lawrlwytho

**Llywodraeth Cymru: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2014**
https://llyw.cymru/iechyd-a-gofal-cymdeithasol
Ffeithluniau hawdd i'w deall sy'n esbonio'r Ddeddf y gellir eu lawrlwytho

**Llywodraeth Cymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau
Ffeithluniau hawdd i'w deall sy'n esbonio'r Ddeddf y gellir eu lawrlwytho

**Llywodraeth Cymru: Mwy na geiriau…..**
https://gweddill.llyw.cymru/topics/health/publications/health/guidance/words/index1b1b.html?force=cy
Pecynnau gwybodaeth hawdd i'w deall y gellir eu lawrlwytho

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**
http://www.publichealthwales.wales.nhs.uk/

**Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ymgyrchoedd a Phrojectau Cydweithredol i Hybu Iechyd**
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/44945

**Iechyd Cyhoeddus Cymru: Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504

**Y Coleg Nyrsio Brenhinol: Ystyr gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**
https://rcni.com/hosted-content/rcn/first-steps/promoting-person-centred-care-and-patient-safety

**Y Coleg Nyrsio Brenhinol: Egwyddorion ymarfer nyrsio**
https://www.rcn.org.uk/professional-development/principles-of-nursing-practice

**Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth: Cod Ymarfer Proffesiynol**
https://www.nmc.org.uk/standards/code/

**Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal: Safonau Proffesiynol**
https://www.hcpc-uk.org/standards/

## Llyfrau

Health and Social Care for GCSE, 2009, Mark Walsh, Collins, (Gwerslyfr a phecyn cefnogaeth).

GCSE Health and Social Care, 2009, Angela Fisher, Stephen Seamons, Richard Cresswell, Mike Anci, 2009, Folens. (Gwerslyfr a phecyn cefnogaeth).

GCSE Health and Social Care, Liam Clarke, 2009, Nelson Thornes. (Gwerslyfr a phecyn cefnogaeth).

GCSE Health and Social Care, Elisabeth Haworth, Andy Ashton, 2009, Pearson Education Cyf.

GCSE Health and Social Care, Hilary Thomson, Sylvia Aslangul, 2009, Hodder and Stoughton.

Child Care and Development 7fed Argraffiad, 2017, Pamela Minnett, Hodder Education.

Caring for Children A Foundation Course in Childcare and Education, 2009, Penny Tassoni, Heinneman.

Children's Care, Learning and Development (S/NVQ Level 2), 2008, Kate Beith, Penny Tassoni, Kate Bulman, Maria Robinson, Heinneman.

## Cylchgronau

Nursing Times

The Carer.